# Agenda - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 4 Rhagfyr 2017

Amser: 14.45

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Fay Bowen**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

**(Cytunodd y Pwyllgor ar 27 Tachwedd 2017 ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o eitem 1 y cyfarfod hwn.)**

## 1 Gyllid Cychwynnol Llywodraeth Cymru i brosiect Cylchffordd Cymru: Gohebiaeth gyda'r Lywodraeth Cymru (17 Tachwedd 2017)

(14.45 - 15.15) (Tudalennau 1 - 45)

PAC(5)-31-17 Papur 1- Llythyr gan Gadeirydd at Lywodraeth Cymru

PAC(5)-31-17 Papur 2 - Llythyr gan Lywodraeth Cymru

PAC(5)-31-17 Papur 3 - Gohebiaeth flaenorol a drafodwyd yn y yfarfod ar 2 Hydref 2017

**(Rhag-gyfarfod preifat 15.15 - 15.30)**

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(15.30)

## 3 Papur(au) i'w nodi

(15.30 - 15.35) (Tudalennau 46 - 48)

## 4 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

(15.35 - 16.30) (Tudalennau 49 - 64)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-31-17 Papur 4 – Y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

Dr Andrew Goodall - Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Weithredwr GIG Cymru

Frances Duffy - Cyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol ac Arloesi, Llywodraeth Cymru

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

(16.30)

Eitem 7

## 6 Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

(16.30 - 16.45)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Eitem 1

James Price
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

20 Hydref 2017

**Prosiect Cylchffordd Cymru**

Annwyl James,

Diolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 2 Hydref am eich sesiwn ffarwelio cyn ichi ddechrau yn eich rôl newydd gyda Thrafnidiaeth Cymru. Yn ystod y sesiwn, trafododd yr Aelodau nifer o faterion â chi yn ymwneud â phrosiect Cylchffordd Cymru. Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon o hyd am ddosbarthiad y prosiect fel un sydd ar y fantolen neu oddi arni, a gofynnwyd imi ysgrifennu atoch gyda phwyntiau pellach sydd angen eglurhad.

Roedd gan y Pwyllgor bryder am y posibilrwydd y byddai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol/Trysorlys Ei Mawrhydi yn dosbarthu'r prosiect fel un a fyddai 'ar y fantolen' i Lywodraeth Cymru, pe bai'r Cabinet wedi cytuno i'r cynnig i'w gwarantu. Rydym yn ceisio deall mwy am y cydbwysedd rhwng risg gyhoeddus a risg breifat mewn perthynas â'r prosiect, ac i ba raddau yr oedd deialog rhwng Llywodraeth Cymru â'r cwmni ar y mater hwn cyn penderfyniad y Cabinet. Er hwylustod, rwyf wedi cynnwys yr hyn sydd ar gael yn gyhoeddus, hyd y gwyddys, am y penderfyniad hwn.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

Ar 13 Gorffennaf 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn y Cyfarfod Llawn:

> 'Gan gynnwys gwarantau uniongyrchol Llywodraeth Cymru a benthyciadau gan awdurdodau lleol, mae'r cynnig diweddaraf a gyflwynwyd gan Cylchffordd Cymru yn gofyn i Lywodraeth Cymru danysgrifennu tua 75 y cant o gyfanswm cost y prosiect o £370 miliwn, gydag awdurdodau lleol yn tanysgrifennu 8 y cant pellach. Yn anffodus, er gwaethaf ymdrechion cefnogwyr y prosiect, mae hyn golygu nad yw'r sector preifat ond yn ysgwyddo oddeutu 17 y cant o'r risg.
>
> 'Fel y mae ar hyn o bryd, mae'n annerbyniol fod trethdalwyr Cymru, drwy gymorth Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol, yn ysgwyddo cymaint â hynny o'r risg, yn enwedig ar adeg pan ydym yn wynebu ansicrwydd economaidd sylweddol o ganlyniad i'r DU yn gadael Ewrop. Yn ein barn ni, nid yw'r prosiect hwn yn darparu'r lefel o werth am arian sy'n angenrheidiol ar hyn o bryd o ystyried y risg i gymaint o arian cyhoeddus Ar sail hynny, rwyf wedi dweud wrth Michael Carrick a Martin Whitaker heddiw fy mod yn credu bod angen gwneud rhagor o waith ar y cynnig hwn. Mae fy nrws yn parhau i fod yn gwbl agored ac rwyf wedi eu hannog i ddiwygio eu cais yn y fath fodd fel bod y sector preifat yn ysgwyddo mwy o'r risg er mwyn i'r prosiect hwn allu mynd rhagddo.
>
> 'Mae angen i ni weld o leiaf 50 y cant o'r prosiect hwn yn cael ei ariannu a 50 y cant o'r risg yn cael ei thanysgrifennu gan y sector preifat i gyfiawnhau gwerth am arian i Lywodraeth Cymru a phwrs y wlad ac maent wedi derbyn yr egwyddor hon. Bydd fy swyddogion yn awr yn gweithio'n adeiladol gyda thîm Cylchffordd Cymru er mwyn sicrhau y gellir cyflawni'r prosiect hwn yn llwyddiannus er budd economi leol Glynebwy a Chymru yn gyffredinol.'

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet ym mis Mehefin 2017 i beidio â darparu cefnogaeth i'r prosiect drwy warantu'r £210 miliwn y gofynnwyd amdano, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y datganiad isod yn y Cyfarfod Llawn ar 27 Mehefin 2017, gan gyfeirio'r datganiad uchod:

> 'Ym mis Gorffennaf y llynedd dywedais wrth y cwmni y buaswn yn disgwyl gweld y sector preifat yn ariannu o leiaf 50 y cant o'r prosiect ac yn ymgymryd

â 50 y cant o risg ariannol y prosiect, a bod y prosiect yn ei gyfanrwydd yn rhoi gwerth am arian i Lywodraeth Cymru a phwrs y wlad.

> ‘Ym mis Chwefror, cyflwynodd y datblygwyr gynnig newydd i Lywodraeth Cymru. Dilynwyd hyn gan gais ffurfiol ym mis Ebrill, yn gofyn am warantu benthyciad o £210 miliwn. Mae diwydrwydd dyladwy helaeth a manwl gan arbenigwyr allanol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru wedi dangos, oherwydd y ffordd y mae'r cytundeb wedi ei strwythuro, y byddai’r cynnig presennol yn gweld Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo mwy na 50 y cant o'r risg. Mae hynny oherwydd y byddai’r elfen warant o £210 miliwn yn cario risg uwch na rhannau eraill y pecyn ariannol.’

Mewn ymateb i’r pwynt hwnnw, mae’r Heads of the Valley Development Company wedi datgan:

> ‘at no point during the due diligence process was the company told by the Welsh Government that this was an issue and that the Welsh government believed that it would be exposed to more than 50% of the risk.’[1]

Yn ei ddatganiad ar 27 Mehefin 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith:

> ‘O ganlyniad, yn dilyn trafodaethau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn ystod y broses diwydrwydd dyladwy, asesir bod risg sylweddol iawn y byddai dyled lawn £373 miliwn prosiect cyfan Cylchdaith Cymru yn cael ei dosbarthu fel gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru.’

Mewn ymateb i’r pwynt hwnnw, dywedodd yr Heads of the Valley Development Company:

> ‘the company was never informed or made aware of this ONS and HM Treasury advice during the due diligence process. We were promised by Welsh Government officials that we would be consulted if any significant issues arose during due diligence and given an opportunity to respond.’[2]

---

[1] Datganiad i’r wasg gan HoVDC, Mehefin 2017

[2] Datganiad i’r wasg gan HoVDC, Mehefin 2017

Yng ngoleuni'r datganiadau hyn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Pryd y dywedodd Llywodraeth Cymru wrth yr Heads of the Valley Development Company gyntaf am ei phryder y byddai gwarantu'r £210 miliwn ar gyfer Cylchffordd Cymru yn golygu mai'r sector cyhoeddus a fyddai'n ysgwyddo dros 50 y cant o risg y prosiect.

2. Pryd y dywedodd Llywodraeth Cymru wrth yr Heads of the Valley Development Company gyntaf am farn swyddogion Trysorlys Cymru fod posibilrwydd y byddai'r prosiect yn cael ei drin fel un a fyddai ar y fantolen yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru?

3. Pa ymatebion gafodd Llywodraeth Cymru gan yr Heads of the Valley Development Company ar y ddau bwynt hyn o flaen y penderfyniad gan y Cabinet ar 27 Mehefin 2017 i beidio â gwarantu'r £210 miliwn fel y gofynnwyd?

Byddwn yn ddiolchgar am ymateb ystyriol a chynhwysfawr i'r cwestiynau cyn gynted ag y bo modd, fel na fydd angen cynnal sesiwn dystiolaeth arall ar y pwnc hwn.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru Wales

c/o committeebusiness@wales.gsi.gov.uk

17 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Ramsay

Rwyf yn ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 20 Hydref 2017 ynglŷn â phrosiect Cylchffordd Cymru, ar ôl fy sesiwn ffarwel gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 2 Hydref 2017. Mae'r Pwyllgor wedi gofyn y cwestiynau penodol a ganlyn o ran trin y prosiect fel un a fyddai ar y fantolen ac o ran cydbwysedd y risg:

1. Ar ba ddyddiad y dywedodd Llywodraeth Cymru gyntaf wrth yr Heads of the Valley Development Company (HOVDC) ei bod yn pryderu y byddai'r cais i'r sector cyhoeddus roi gwarant o £210 miliwn ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru yn golygu mai'r sector cyhoeddus fyddai'n ysgwyddo dros 50 y cant o risg y prosiect?

2. Ar ba ddyddiad y dywedodd Llywodraeth Cymru gyntaf wrth HOVDC am farn swyddogion Trysorlys Cymru fod posibilrwydd y byddai'r prosiect yn cael ei drin fel un a fyddai ar y fantolen yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru?

3. Pa ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru oddi wrth HOVDC ar y ddau bwynt hyn cyn y penderfyniad gan y Cabinet ar 27 Mehefin 2017 i beidio â rhoi'r gwarant o £210 miliwn y gofynnwyd amdani?

Oherwydd bod y cwestiynau a'r atebion cysylltiedig i gyd yn perthyn i'w gilydd, rwyf yn darparu un ateb cynhwysfawr.

Fel y dywedasoch yn eich llythyr ataf, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ym mis Gorffennaf 2016 y byddai angen i Lywodraeth Cymru weld o leiaf 50 y cant o risg y prosiect yn cael ei hysgwyddo gan y sector preifat er mwyn i'r prosiect fynd yn ei flaen. Derbyniodd HOVDC yr egwyddor honno ar y pryd.



Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 025 6646
james.price@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Roedd dosbarthu'r prosiect fel un a fyddai 'ar y fantolen' yn fater gwahanol a drafodwyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr HOVDC mor gynnar â gwanwyn 2016, fel y cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yn ei ateb i WAQ74043. Tua'r un adeg, tynnodd yr awdurdodau lleol a oedd wedi bod yn cydweithio â Llywodraeth Cymru yn ôl o'r cynnig a bu newid o ran y cymorth y gofynnwyd i Lywodraeth Cymru ei roi. Rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith rywfaint o gefndir y newidiadau hynny yn ei lythyr dyddiedig 4 Awst at Adam Price AC. Derbyniodd HOVDC fod angen i gostau'r prosiect beidio â bod ar fantolen Llywodraeth Cymru ac, yn wir, cynhaliwyd asesiad o ddosbarthiad y prosiect, o ran ei chynnwys ar y fantolen neu beidio, gan EY ym mis Hydref 2016 mewn adroddiad a baratowyd ar gyfer HOVDC. Er bod adroddiad EY yn ystyried strwythur cyllido ar gyfer y prosiect a oedd yn wahanol i'r cynnig a gyflwynwyd ym mis Chwefror 2017, ac er nad oedd, o'r herwydd, yn sail i asesiad Llywodraeth Cymru o sut y dylid ymdrin â'r mater o ran ei gynnwys ar y fantolen ai peidio, mae'r ffaith bod EY wedi mynd i'r afael â'r mater yn benodol yn cadarnhau bod HOVDC yn deall ei fod yn bwynt hollbwysig.

Cyfarfu swyddogion â chynrychiolwyr HOVDC yn rheolaidd, yn enwedig rhwng mis Hydref 2016 a mis Mehefin 2017. Byddai lefel y risg i'r sector cyhoeddus a sut y dylid ymdrin â'r mater o ran ei gynnwys ar y fantolen ai peidio yn rhan o'r trafodaethau hynny.

O ran y cynnig a gyflwynwyd gan HOVDC ym mis Chwefror 2017, ni ddaeth maint y risg posibl i Lywodraeth Cymru i'r amlwg tan ar ôl i'r adroddiadau diwydrwydd dyladwy drafft ddod i law ym mis Mai 2017, ac ar ôl ymgynghori â Thrysorlys EM.  Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith y pwynt hwnnw yn ei ymatebion i WAQ73739 a WAQ73769.

Cafodd copïau drafft o'r adroddiadau diwydrwydd dyladwy, neu rannau ohonynt, eu rhannu â chynrychiolwyr HOVDC ym mis Mai a mis Mehefin 2017 er mwyn iddynt gael gwirio'r ffeithiau, ac ymhlith yr adroddiadau hynny yr oedd y prif adroddiad diwydrwydd dyladwy a baratowyd gan Grant Thornton. Cyflwynodd HOVDC sylwadau manwl am adroddiad Grant Thornton bryd hynny i gywiro camgymeriadau ffeithiol ac i dynnu sylw at feysydd lle'r oeddent yn anghytuno â dadansoddiad Grant Thornton. Er na wnaeth HOVDC unrhyw sylw penodol ar gydbwysedd y risg, gwnaethant herio'r modd y cyflwynwyd yr asesiad o rwymedigaeth ariannol posibl ar Lywodraeth Cymru o dan y warant. Fodd bynnag, nid oedd Grant Thornton  yn derbyn y dadansoddiad hwnnw ac, er hynny, rhoddodd HOVDC gadarnhad ysgrifenedig am gywirdeb ffeithiol yr adroddiad.

Gwnaed y penderfyniad i beidio â rhoi gwarant gan Lywodraeth Cymru ar ôl i'r asesiad o risgiau a manteision posibl y prosiect gael ei ystyried yn ofalus gan y Cabinet. Nid oedd swyddogion yn gwybod am ganlyniad trafodaeth y Cabinet ymlaen llaw ac o'r herwydd, ni fyddent wedi gallu rhoi gwybod amdano yn gynt. Felly, cafodd cynrychiolwyr HOVDC wybod am y tro cyntaf am benderfyniad Llywodraeth Cymru ar y warant arfaethedig, gan gynnwys lefel y risg i'r llywodraeth o ran y prosiect ac o ran y fantolen, pan gysylltodd swyddogion â chynrychiolwyr HOVDC ar ôl penderfyniad y Cabinet yn ystod y bore ar 27 Mehefin 2017. Cafodd trafodaeth fanylach ei chynnal wedyn rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr HOVDC ar 30 Mehefin 2017.

Er na roddwyd gwybod i HOVDC am asesiad terfynol Llywodraeth Cymru o risg y prosiect ac o'i ddosbarthiad cyn trafodaeth y Cabinet ar 27 Mehefin 2017, roedd HOVDC wedi deall a derbyn yr egwyddorion cyffredinol yn ystod 2016.

Yn gywir

**JAMES PRICE**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

James Price
Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol - Grŵp yr Economi,
Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

12 Gorffennaf 2017

Annwyl Mr Price

**Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru**

Diolch unwaith eto am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 26 Mehefin 2017. Yn dilyn y cyfarfod, mae'r Aelodau wedi gofyn fy mod yn ysgrifennu atoch gyda rhai sylwadau a cheisio eglurhad pellach ynghylch nifer o bwyntiau sy'n codi o'r dystiolaeth. Wrth ymateb i'r llythyr hwn, byddwn yn disgwyl i sylwadau'r swyddogion perthnasol, sef Mr McGuire a Mr Munday gael eu cynnwys. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y llythyr hwn a'ch ymateb yn dileu'r angen am sesiwn dystiolaeth ychwanegol, er y bydd hyn yn dibynnu ar ddyfnder a chyflawnrwydd yr atebion a ddarperir.

Er hwylustod, rydym wedi ychwanegu troednodiadau at y trawsgrifiad (Cofnod y Trafodion) ac Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol.

**Gwerth am arian cyffredinol**

Un o brif ffocysau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei sicrhau wrth wario arian cyhoeddus. Nid ydym yn ffurfio barn ynghylch dilysrwydd penderfyniadau polisi, ond yn hytrach a yw'r buddsoddiadau hynny wedi cael eu gwneud yn unol â'r prosesau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i ddiogelu'r rheini sydd â'r cyfrifoldeb am fuddsoddi arian cyhoeddus. Mae gennym



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

nifer o gwestiynau'n ymwneud â'r gwerth am arian cyffredinol ar gyfer cyllid cychwynnol y prosiect:

1. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 26 Mehefin 2017, gwnaethoch nodi:

    > *"I am persuaded that we have achieved value for money for what we have got, yes, which is a project that is ready, subject to finance, to be delivered. So, yes."*[1]

    A bod £9.3 miliwn yn cynrychioli gwerth am arian ni waeth a yw'r prosiect yn mynd yn ei flaen ai peidio.[2] Yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin, hoffai'r Pwyllgor wybod a ydych yn credu bod hwn yn ddatganiad dilys o hyd, a'ch cyfiawnhad dros y farn hon.

2. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw dystiolaeth ynghylch gwerth am arian mewn perthynas â thaliadau a wneir i gyflenwyr ar sail blaendaliadau misol.

3. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddyfynnu'r rhagdybiaethau craidd o 1000 o swyddi o'r Gylchffordd a 4000 o'r datblygiad dilynol.[3] Wrth egluro'r rheswm dros beidio â phenderfynu buddsoddi ymhellach yng Nghylchffordd Cymru, dywedodd y Gweinidog:

    > *'…once the initial track and directly related development… had reached a steady state of trading around the year 2024, the number of direct full-time-equivalent (FTE) operational jobs would be little over 100. In addition, the circuit development could create around 500 indirect FTE jobs through potential visitor spend, as well as approximately 500 FTE construction jobs while the track was being built.'*

    Sut y mae'r ffigurau a ddyfynnir yn y cyfarfod yn cysoni â'r ffigurau a ddyfynnir i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag ariannu'r prosiect?

---

[1] Cofnod y Trafodion, paragraff 22
[2] Cofnod y Trafodion, paragraff 428
[3] Cofnod y Trafodion, paragraffau 24 - 41

**Caffael FTR:**

Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon yn ymwneud â phrynu FTR fel rhan o'r Grant Datblygu Eiddo. Mae nifer o feysydd y byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad pellach arnynt, a'r mater sy'n peri pryder penodol yw diffyg dogfennau priodol am y penderfyniad i'r pryniant hwn gael ei gynnwys fel rhan o'r Grant Datblygu Eiddo:

4. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddweud eich bod yn ystyried bod prynu FTR yn cynrychioli gwerth am arian, a ydych yn dal i feddwl bod hyn yn wir, ac os felly, sut y mae'n cynrychioli gwerth am arian?

5. Gwnaethoch hefyd gyfeirio at y gwaith craffu sylweddol a oedd yn cael ei wneud ar y Grant, a byddem yn hoffi gwybod pa fath o waith craffu penodol a wnaed ar yr eitem FTR?[4]

6. Er gwaethaf eich sicrwydd yn y cyfarfod bod y gymeradwyaeth ar gyfer prynu FTR gydag arian y Grant wedi'i hystyried yn fanwl ac yn[5] cyd-fynd gyda'r prosiect[6], mae'r Pwyllgor yn aneglur o hyd ynghylch sut y daethpwyd i'r casgliadau hyn. Felly, a fyddech cystal ag egluro'n union:

   - sut yr oedd y rhesymeg dros Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HoVDC) i gaffael FTR yn cyd-fynd â dibenion ac amcanion cynllun y Grant Datblygu Eiddo?

   - sut yr oedd y rhesymeg dros HoVDC i gaffael FTR yn ffitio o fewn dibenion Cam 1 Prosiect Cylchffordd Cymru?

7. Mae'r Pwyllgor yn aneglur o'ch tystiolaeth a byddem yn croesawu eglurhad ynghylch p'un a fyddai cynnwys eitem £300,000 fel FTR, y nododd yr Archwilydd Cyffredinol nad yw'n cyd-fynd â dibenion craidd cynllun grant, yn cael ei ystyried yn eithriadol, a'ch rhesymau dros benderfyniad o'r fath.

---

[4] Cofnod y Trafodion, paragraff 343

[5] Cofnod y Trafodion, paragraff 80

[6] Cofnod y Trafodion, paragraff 76

8. Cafodd y Grant ei ôl-ddyddio o dri mis bron (am resymau nad yw Llywodraeth Cymru wedi'u hesbonio i'r Pwyllgor eto) a chafodd y taliad FTR ei wneud cyn i'r grant gael ei ddyfarnu. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a wnaeth Llywodraeth Cymru adolygu'r contract prynu/gwerthu FTR cyn cymeradwyo i FTR gael ei gynnwys yn rhan o'r grant datblygu eiddo, ac os nad, pam hynny?

9. Mae gan y Pwyllgor bryderon penodol ynghylch y penderfyniad i brynu FTR o bosibl ddim yn cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Byddem yn croesawu ymateb ynghylch pam nad oes unrhyw dystiolaeth o gymeradwyaeth o'r cyllid grant ar gyfer caffael FTR yn cael ei dwyn i sylw'r Gweinidogion? Ac o dan ba amgylchiadau y credwch ei bod yn briodol dwyn neu beidio â dwyn eitem o'r fath i sylw'r Gweinidog?

10. Nododd y Pwyllgor y sylwadau gennych chi a Ms Mayes ynghylch cadw cofnodion, sef y dylai swyddogion gadw cofnodion manwl o'r holl gyfarfodydd a sgyrsiau gydag ymgeiswyr am gyllid[7] ac y byddai arfer da y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddangos pam eich bod wedi gwneud yr hyn y gwnaethoch.[8] Byddai'r Pwyllgor yn hoffi gwybod pa gyfiawnhad sydd ar gyfer y swyddogion yn peidio â chadw cofnodion yn ymwneud â'r penderfyniad ynghylch FTR a pham nad oes unrhyw ddogfennau cyfoes yn ymwneud â FTR?

**Rhagor o gwestiynau mewn perthynas â thystiolaeth lafar:**

Mae gan y Pwyllgor nifer o gwestiynau dilynol sy'n codi o'r dystiolaeth lafar a ddarparwyd gennych ar 26 Mehefin 2017:

11. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddweud bod HoVDC yr ail dro y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwarant benthyciad.[9] Byddai'r

---

[7] Cofnod y Trafodion, paragraff 337
[8] Cofnod y Trafodion, paragraff 343
[9] Cofnod y Trafodion, paragraff 155

Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am ddarparu gwarantau benthyciad gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol:

- beth oedd y warant gyntaf y cyfeirir ati yn y dystiolaeth?
- sut y cafodd y warant ei sicrhau?
- a alwyd arni? Os felly, a gafodd Llywodraeth Cymru yr arian yn ôl?
- a oes unrhyw warantau eraill wedi cael eu ceisio, eu gwrthod neu eu darparu?

12. Mae'r angen am wahanu dyletswyddau o ran swyddogion sy'n ymwneud â chefnogi ceisiadau am gyllid gan y rheini sy'n gyfrifol am awdurdodi taliadau yn rheolaeth sylfaenol. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gennych chi a Ms Mayes yn y cyfarfod fod y prosesau yn bodoli o fewn Llywodraeth Cymru.[10] Fodd bynnag, mae'r sicrwydd hwn yn dal i ymddangos yn groes i'r canfyddiadau yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod swyddog ar 11 Ionawr 2013 wedi cyfarwyddo ei gydweithiwr cyllid i dalu cais am grant, er nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweld y rhannau perthnasol o'r contract gwerthiant amodol.[11] Felly, byddem yn croesawu eglurhad ar sut y mae cyfarwyddyd y swyddog hwn a sut y cafodd ei weithredu yn dangos y gwahaniad priodol o ddyletswyddau.

13. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod taliadau grant y Grant Datblygu Eiddo i HoVDC yn cynnwys ad-dalu HoVDC am flaendal a ddaliwyd mewn ysgrow, ac ni fyddai'r math hwn o daliad fel arfer yn cael ei ystyried yn gymwys i gael grant gan ei fod yn cynrychioli setlo taliad nad yw wedi'i ad-dalu eto.[12] Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd Ms Mayes yn yr achos hwn y credai Llywodraeth Cymru ei bod yn iawn yn talu'r swm llawn a hawlir i HoVDC, fodd bynnag, nid yw'n glir pam y daethpwyd i'r casgliad hwn.[13] Er ein bod yn derbyn nad yw blaendal a ddelir mewn ysgrow yn anarferol mewn trafodion gwerthiannau eiddo amodol, rydym hefyd yn nodi nad yw symiau o'r fath yn wariant cymwys fel arfer – felly a fyddech cystal

---

[10] Cofnod y Trafodion, paragraffau 272-280
[11] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.40
[12] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.38-3.40
[13] Cofnod y Trafodion, paragraff 317

ag egluro pam yn yr achos hwn fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried bod y taliad hawlio grant hwn yn gywir?

14. Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor ynghylch pam nad oedd cyfrifon HoVDC wedi'u harchwilio, dywedodd Ms Mayes nad oedd cyfrifon y cwmni wedi'u harchwilio am nad oedd yn ofynnol i'r cwmnïau wneud hynny.[14] Mae gennym rai pryderon sylweddol am hyn gan mai un o ofynion y cytundeb gwarant benthyciad oedd i HoVDC ddarparu cyfriflenni ariannol wedi'u harchwilio i Lywodraeth Cymru.[15] Felly, hoffem eglurhad ynghylch pam y cafodd yr amod hwn i ddarparu cyfriflenni ariannol wedi'u harchwilio ei osod fel rhan o warant y benthyciad? Ac yna pam na chafodd yr amod hwn ei orfodi?

15. Cwestiynodd y Pwyllgor y penderfyniad i beidio â rhoi gwybod i Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru am y cymorth gwarant benthyciad posibl pan oeddent yn ystyried a ddylai gefnogi'r cais cyllid busnes ad-daladwy o £80 miliwn ar gyfer y prosiect hwn. Byddem yn croesawu eglurhad, pe byddai'r un amgylchiadau'n codi, a fyddai Llywodraeth Cymru bellach yn dweud wrth Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru am y warant benthyciad posibl?[16]

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor cafwyd trafodaeth sylweddol o ran darparu cyllid heb risg i HoVDC ac a allai hyn dorri rheolau Cymorth Gwladwriaethol. Mae gan y Pwyllgor nifer o gwestiynau sy'n codi o hyn:

16. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y canfyddiadau yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod swyddogion Llywodraeth Cymru ei hun yn cynghori y gallai darparu'r warant benthyciad yn ychwanegol at y Cyllid Busnes Ad-daladwy fod yn broblem o ran cymorth gwladwriaethol ac

---

[14] Cofnod y Trafodion, paragraff 436
[15] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.15
[16] Cofnod y Trafodion, paragraffau 390 - 401

na all gynnig unrhyw sicrwydd i Weinidogion y byddai'r cynigion yn sefyll i fyny i ddadansoddiad neu archwiliad barnwrol gan y Comisiwn Ewropeaidd. O ystyried y cyngor a roddwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r risg o ddarparu Cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon, hoffem gael eglurhad pellach ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel buddsoddwr yn y farchnad?[17]

17. Ychydig o eglurder a gafodd y Pwyllgor ynghylch ei gwestiynau am ba sicrwydd oedd gan Lywodraeth Cymru o ran gallu HoVDC i dalu gwarant y benthyciad yn ôl. O ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru, a ydych bellach yn cytuno bod Llywodraeth Cymru wedi, mewn gwirionedd, darparu cyllid heb risg i HoVDC, a allai dorri rheolau Cymorth Gwladwriaethol?[18] Os nad ydych yn cytuno, pam ddim?

**Eglurhad a gwybodaeth ychwanegol:**

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu nifer o bwyntiau o eglurhad a gwybodaeth ychwanegol am y pwyntiau a godwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth. Rwy'n deall bod y Clercod wedi anfon neges e-bost atoch gyda'r pwyntiau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda chi yn ystod y cyfarfod. Byddwn yn ddiolchgar o gael y rhain ochr yn ochr â'r wybodaeth isod:

18. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddyfynnu ffigur o 20 y cant fel y gyfran nodweddiadol o gyfanswm cost y prosiect a oedd ei angen i gyrraedd y cyllid gofynnol, a arweiniodd atoch yn dod i'r casgliad fod amlygiad Llywodraeth Cymru o 2 y cant ar gyfer cyfanswm cost y prosiect o tua £400 miliwn i gynrychioli gwerth da am arian. Beth yw'r ffynhonnell ar gyfer y ffigur hwn o 20 y cant? A fyddech cystal ag egluro pa fath o brosiect a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigur yn ogystal ag egluro pam mae prosiectau o'r fath yn gymaryddion priodol ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru?

---

[17] Cofnod y Trafodion, paragraffau 167-169

[18] Cofnod y Trafodion, paragraff 181; Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.15

19. Roeddem yn synnu eich bod wedi nodi nad oeddech yn credu bod nifer y cwmnïau neu unigolion cysylltiedig mor uchel â naw[19], sef y ffigur a ddyfynnwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, o ystyried bod yr adroddiad wedi'i wirio gyda HoVDC. Mae'r Pwyllgor yn deall o gais Rhyddid Gwybodaeth a ddatgelwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru mai enwau saith cwmni [ni chafodd enwau dau unigolyn arall eu datgelu] oedd:
    - Aventa Capital Partners Ltd;
    - Stephenson Harwood LLP;
    - Insight Infrastructure Ltd;
    - Shaun Meadows Marketing Ltd;
    - Barton Communications Ltd;
    - Kalergo Ltd; ac
    - Altitude Aviation Advisory Ltd
    -

    Pa un o'r cwmnïau yn y rhestr a ddatgelwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru y cred Llywodraeth Cymru nad ydynt yn gysylltiedig a beth y credwch yw'r ffigur cywir ar gyfer cyfanswm nifer y cwmnïau neu unigolion cysylltiedig a oedd yn cael taliadau o dan y Grant Datblygu Eiddo neu'r trefniant gwarant benthyciad?

20. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, gwnaethoch ddweud y bu cyfanswm gwariant o £55 miliwn gan bob parti, ac mae gan Lywodraeth Cymru amlygiad o tua £9.2 miliwn. Mae hwn yn ffigur sy'n fwy na'r £30 miliwn a ddyfynnwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, lle roedd y ffeithiau wedi'u gwirio gyda HoVDC. Aethoch ati i wirio'r swm o £55 miliwn a darparu'r wybodaeth i'r Pwyllgor. A fyddech cystal â chadarnhau faint o fuddsoddiad sector preifat a wnaed yn y Prosiect sydd bellach mewn perygl yn sgil y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru. A fyddech cystal hefyd â darparu ffynhonnell y wybodaeth hon a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i wirio ei bod yn gywir?

---

[19] Cofnod y Trafodion, paragraff 111

21. Gwnaethoch gyfeirio at nifer y busnesau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi a'r cyfraddau methu sy'n gysylltiedig â hwy, gan nodi bod 1,000 o fuddsoddiadau dros bum mlynedd, lle roedd 3.4 y cant wedi mynd o chwith.[20] Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am y ffynhonnell a chywirdeb y ffigurau a ddyfynnwyd. At hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad o'r hyn a olygir gennych mewn perthynas â 'mynd o chwith' - a ydych yn golygu methiant busnes, methu â chyrraedd y canlyniad a fwriadwyd (e.e. swyddi a grëwyd) neu rywbeth arall? A fyddech cystal ag egluro sut yr ydych yn diffinio llwyddiant a methiant.

22. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, holodd y Pwyllgor chi ynghylch a oedd y diwydrwydd dyladwy ar gyfer y rhaglen yn drylwyr ac y gorau posibl. Oherwydd y broses barhaus, roeddech yn methu â rhoi ymateb llawn i hyn yn ystod y cyfarfod ond darparwyd nodyn gennych yn rhoi mwy o fanylion am y broses diwydrwydd dyladwy yn dilyn penderfyniad y Cabinet. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gynnwys y nodyn hwn fel rhan o'r ymateb i'r llythyr hwn.[21]

23. Yn natganiad Ysgrifennydd y Cabinet yn y cyfarfod llawn ar 27 Mehefin, dywedodd wrth Aelodau'r Cynulliad: "*yn dilyn trafodaethau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn ystod y broses diwydrwydd dyladwy, asesir bod risg sylweddol iawn y byddai dyled lawn £373 miliwn prosiect cyfan Cylchdaith Cymru yn cael ei dosbarthu fel gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru*". Hoffai'r Pwyllgor eglurhad o ran pryd y cynhaliwyd y trafodaethau hyn, a phryd yn y broses diwydrwydd dyladwy y nodwyd y broblem cyfrifyddu hon am y tro cyntaf.

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyfeiriad at 'grŵp llywodraethu mewnol' o fewn Llywodraeth Cymru i ddarparu her arbenigol. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o

[20] Cofnod y Trafodion, paragraff 498
[21] Cofnod y Trafodion, paragraff 349

wybodaeth am y Grŵp hwn, pwy sy'n rhan o'r Grŵp; pa her y maent yn ei gynnig o ran Cylchffordd Cymru, a sut y gwnaeth swyddogion ymateb?[22]

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol**:

25. Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion a oedd yn mynegi *syndod a siom* Llywodraeth Cymru o ran penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi ei adroddiad yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad; a nododd nad oedd wedi cael digon o amser i ystyried ac ymateb i'r adroddiad cyn ei gyhoeddi. Roedd ymateb dilynol i gwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad gan Adam Price yn egluro bod swyddogion yn gwybod am y cyhoeddiad a fwriadwyd o'r adroddiad ar 17 Mawrth 2017. O ystyried bod swyddogion yn gwybod dros fis cyn i'r Gweinidog gael eu hysbysu'n ffurfiol, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a oedd y Gweinidog wedi cael gwybod yn anffurfiol am fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi cyn cael gwybod yn ffurfiol ar 24 Ebrill?

26. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ar nifer o achlysuron drwy gydol y sesiwn dystiolaeth eich bod wedi honni bod gwallau ffeithiol yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei ddeall, mae adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn destun proses glirio sylweddol a thrwyadl er mwyn bod mor deg a chywir â phosibl, ac rydym yn dibynnu ar yr adroddiadau hyn i wneud gwaith craffu pellach o bynciau sy'n aml yn sensitif ac rydym yn ystyried yr awgrymiadau o wallau yn yr adroddiad yn ddifrifol iawn. Felly, ar wahân i'r gwall sy'n nodi bod y prawf Effeithlonrwydd Economaidd yn brawf y DU ac nid prawf Cymru,[23] a fyddech cystal â rhoi manylion, gyda thystiolaeth ategol, am y gwallau eraill yn yr adroddiad?

27. Yn olaf, yn ystod y sesiwn dystiolaeth gwnaethoch gyfeirio at fod wedi dysgu gwersi o ganlyniad i gyllid cychwynnol Cylchffordd Cymru, a fydd yn

---

[22] Cofnod y Trafodion, paragraff 351

[23] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 2.8

caniatáu inni wneud pethau'n well y tro nesaf.[24] A fyddech cystal â nodi'r gwersi a ddysgwyd a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd?

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb erbyn 25 Awst 2017, er mwyn i'r Pwyllgor ystyried hyn yn gynnar yn nhymor yr hydref.  Byddwn unwaith eto yn ailadrodd ein bod yn gobeithio y bydd yr ymatebion a ddarperir gennych i'r llythyr hwn yn golygu y gall y Pwyllgor gwblhau'r ymchwiliad hwn heb yr angen am sesiwn dystiolaeth ychwanegol.

Yn gywir

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**

**CC: Ms Shan Morgan, Ysgrifennydd Parhaol, Llywodraeth Cymru**

[24] Cofnod y Trafodion, paragraff 433

Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group

Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol • Deputy Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mr N Ramsay
Chair, Public Accounts Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Our Ref/Your Ref:

11 September 2017

**Annwyl Mr Ramsay,**

**Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru**

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y cyllid cychwynnol ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru. Gobeithio y bydd yr ymatebion cynhwysfawr isod yn rhoi sicrwydd i chi ynglŷn â'r prosesau o wneud penderfyniadau yn ystod y gwaith o gyllido ac asesu'r prosiect mawr a chymhleth hwn. Yn unol â'ch cais, rwyf wedi ymgorffori safbwyntiau Mr McGuire a Mr Munday wrth goladu'r ymatebion i'ch cwestiynau cynhwysfawr. Mae'r ymatebion i'ch cwestiynau wedi'u cynnwys yn Atodiad 1.

Mae'r ymatebion i'r cwestiynau a ddarparodd y Clerc ar ôl sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 hefyd.

Caiff y Pwyllgor weld yn y dystiolaeth ategol bod agweddau ar y ffordd y mae'r prosiect wedi'i drin, o edrych yn ôl, lle gallai swyddogion fod wedi defnyddio prosesau gwell. Rwy'n gwneud yn siŵr ein bod yn dysgu'r gwersi ac yn gwella'r prosesau hynny. Wrth ystyried y dystiolaeth, rwyf yn gobeithio y gwnaiff y Pwyllgor gadw mewn cof mor newydd a chymhleth yw'r prosiect a bod posibilrwydd y gallai fod wedi dod â buddiannau i ran o Gymru lle roedd angen am fuddsoddi ond a oedd hefyd yr un pryd yn fenter sylweddol i'r pwrs cyhoeddus.

James Price

Canolfan QED • QED Centre
Y Brif Rodfa • Main Avenue
Trefforest • Treforest
Pontypridd, CF37 5YR

Ffôn • Tel 0300 025 6646
james.price@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

**ATODIAD 1**

**Gwerth am Arian Cyffredinol**

**<u>Cwestiwn 1</u>**
**Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 26 Mehefin 2017, gwnaethoch nodi:**

***"I am persuaded that we have achieved value for money for what we have got, yes, which is a project that is ready, subject to finance, to be delivered. So, yes."***

**A bod £9.3 miliwn yn cynrychioli gwerth am arian waeth a yw'r Prosiect yn mynd yn ei flaen ai peidio. Yn sgil penderfyniad Llywodraeth Cymru ar 27 Mehefin, hoffai'r Pwyllgor wybod a ydych yn credu bod hwn yn ddatganiad dilys o hyd, a'ch cyfiawnhad dros y farn hon.**

Diben y cyllid cychwynnol a ddarparwyd i Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HOVDC) oedd galluogi'r cwmni i ddatblygu achos busnes manwl a chynlluniau manwl, codi arian preifat a sicrhau caniatâd cynllunio priodol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â rhoi'r warant y gofynnwyd amdani, mae'r prosiect hwn yn fyw o hyd a gallai'r sector preifat fynd ati i'w roi ar waith.

Fel y nododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae'r gost o ddatblygu prosiect Cylchffordd Cymru yn cael ei hystyried yn briodol ar gyfer prosiect mor gymhleth a mawr â hwn. Weithiau, ceir costau wrth ddatblygu prosiectau nad ydynt yn mynd rhagddynt. Mae'n bwysig buddsoddi'n ddigonol er mwyn penderfynu a yw prosiect yn ymarferol; pe na baem wedi gwneud hynny mae'n bosibl y byddai llai o ddata cadarn ar gael i ni fel sylfaen i'n penderfyniad terfynol.

Wrth asesu'r cymorth cychwynnol i HOVDC, aeth Llywodraeth Cymru ati i asesu'r risgiau o ddarparu cymorth ariannol i brosiect Cylchffordd Cymru a'r manteision cymharol posibl i'r economi. Penderfynwyd mai budd darparu'r cyllid cychwynnol fyddai datblygu'r prosiect a sicrhau'r effeithiau economaidd yn ei sgil. Ystyriwyd hyn yn erbyn y risg o adennill unrhyw gostau a ysgwyddwyd. Er bod y manteision hyn yn cael eu hystyried yn rhai risg uchel ar y pryd, credid eu bod yn cynrychioli gwerth am arian. Nid yw penderfyniad y Cabinet yn effeithio ar ddilysrwydd y datganiad hwn, a oedd yn seiliedig ar y dystiolaeth a oedd ar gael ar y pryd.

Felly ydw, rwy'n dal i gredu bod Llywodraeth Cymru ar y cyfan wedi sicrhau gwerth am arian er gwaethaf y penderfyniad a wnaed ar 27 Mehefin.

**<u>Cwestiwn 2</u>**
**Byddai'r Pwyllgor yn croesawu unrhyw dystiolaeth ynghylch gwerth am arian mewn perthynas â thaliadau a wneir i gyflenwyr ar sail blaendaliadau misol.**

Roedd holl gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru wedi'i roi i HOVDC fel bod modd datblygu cynnig busnes ar gyfer y prosiect a allai chwilio am fuddsoddiad preifat. Fel cwmni un diben, nid oes gan HOVDC unrhyw weithwyr cyflogedig uniongyrchol, ac mae'n dibynnu ar osod ei holl swyddogaethau gweithredol ar gontract.

Nid yw'n anarferol bod cynghorwyr proffesiynol yn codi ffioedd ar sail blaendaliadau misol yn hytrach nag ar sail cyfradd fesul awr neu fesul dydd. Mae hwn yn arfer cyffredin yn y farchnad fasnachol.

Cyflwynodd HOVDC anfonebau fel prawf o wariant a hawliwyd o dan y Grant Datblygu Eiddo neu'r warant banc. Roedd yr holl anfonebau'n nodi'r gwasanaethau a gyflenwyd i'r Cwmni a'r costau cysylltiedig. O'r rheini, roedd nifer ohonynt ar gyfer blaendaliadau misol.

Er enghraifft, derbyniodd Aventa flaendal misol o £42,500 y mis. Ar sail cyfartaledd o 20 o ddiwrnodau gwaith y mis, cost y blaendal hwn oedd £2,125 y dydd. Roedd cytundeb gwasanaeth Aventa gyda'r HOVDC ar gyfer darparu gwasanaethau gan gynnwys yr hyn a ddarparwyd gan Michael Carrick. Dywedodd HOVDC wrthym fod y tâl cadw hefyd yn cwmpasu costau darparu gwasanaethau gan nifer o unigolion â gwybodaeth arbenigol yn y meysydd canlynol:

- Ynni adnewyddadwy
- Technoleg a dadansoddeg data
- Codi cyfalaf
- Cyllid ac adrodd
- Cyfathrebu a marchnata
- Adeiladu a negodi
- Ymchwil fasnachol
- Modelu ariannol

Cafodd y gwasanaethau eraill eu hanfonebu ar wahân ac yn uniongyrchol gan y cyflenwyr (ac eithrio Aventa) a chafodd y costau eu hawlio ar wahân fel rhan o'r Grant Datblygu Eiddo neu o dan y gwarant.

Felly, roedd swyddogion Llywodraeth Cymru yn credu bod gwerth y blaendal yn briodol a bod y prosiect yn cael ei roi ar waith ar gyflymder a ddangosai fod y gweithgareddau gofynnol yn cael eu cwblhau.

**<u>Cwestiwn 3</u>**

**Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddyfynnu'r rhagdybiaethau craidd o 1000 o swyddi o'r Gylchffordd a 4000 o'r datblygiad dilynol. Wrth egluro'r rheswm dros beidio â phenderfynu buddsoddi ymhellach yng Nghylchffordd Cymru, dywedodd y Gweinidog:**

***'…once the initial track and directly related development… had reached a steady state of trading around the year 2024, the number of direct full-time-equivalent (FTE) operational jobs would be little over 100. In addition, the circuit development could create around 500 indirect FTE jobs through potential visitor spend, as well as approximately 500 FTE construction jobs while the track was being built.'***

**Sut y mae'r ffigurau a ddyfynnir yn y cyfarfod yn cysoni â'r ffigurau a ddyfynnir i gefnogi penderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio ag ariannu'r prosiect?**

Roedd fy nhystiolaeth i'r pwyllgor yn cyfeirio at waith Prifysgol De Cymru yn 2012-13 a oedd yn cynnwys rhagdybiaeth graidd ar y pryd y byddai prosiect Cylchffordd Cymru yn creu ychydig yn llai na 1,000 o swyddi. Hefyd, dangosodd yr adroddiad y byddai tua 4000 o swyddi yn deillio o'r datblygiad dilynol. Roedd y dadansoddiad hwn yn berthnasol i'r prosiect fel y'i rhagwelwyd ar y pryd, a rhaid sylweddoli bod y prosiect wedi esblygu'n sylweddol ers hynny, yn rhannol o ganlyniad i'r ddeialog â Llywodraeth Cymru, a bod cynigion cyflogaeth y cwmni wedi'u newid ymhellach.

Un enghraifft o natur newidiol y prosiect yw'r ffaith fod y wybodaeth a gyflwynwyd i Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru ym mis Mehefin 2014 i gefnogi'r cais am grant yn seiliedig ar 304 o weithwyr cyflogedig cyfwerth ag amser llawn, a oedd yn cynnwys 49 o weithwyr cyflogedig parhaol llawn-amser a staff dros dro ar gyfer digwyddiadau a oedd yn cyfateb i 255 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.

Wrth wneud y penderfyniad diweddar, roedd y dadansoddiad o gyflogaeth bosibl yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf a gyflwynodd HOVDC yn gynharach eleni i gefnogi ei gais, ac mae'n adlewyrchu ei gynnig diweddaraf.

**Caffael FTR**

**<u>Cwestiwn 4</u>**

**Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddweud eich bod yn ystyried bod prynu FTR yn cynrychioli gwerth am arian, a ydych yn dal i feddwl bod hyn yn wir, ac os felly, sut y mae'n cynrychioli gwerth am arian?**

Roedd prynu FTR yn rhan o'r cyllid a ddarparwyd drwy'r Grant Datblygu Eiddo i alluogi HOVDC i ddatblygu achos busnes a fyddai'n ei alluogi i gyrchu cyllid gan y sector preifat i adeiladu canolfan chwaraeon moduro ffyniannus fel rhan o brosiect Cylchffordd Cymru. Penderfynwyd darparu'r cyllid yn gynnar yn y broses a thybiwyd bod y penderfyniad hwnnw'n un cadarn ar y pryd.

Y sail resymegol ar gyfer cynnwys FTR fel rhan o'r Grant Datblygu Eiddo oedd y ffaith y byddai'r cwmni yn symud i safle Cylchffordd Cymru a bod yn sbardun i ddatblygu clwstwr o gwmnïau tebyg a allai ddefnyddio'r gylchffordd. Pe bai HOVDC wedi gallu bwrw ymlaen â'r prosiect yn unol â'r amserlen a awgrymwyd yn wreiddiol, mae'n bosibl y byddai FTR wedi gallu adleoli i Gymru yn unol â chynnig HOVDC.

Ystyriwyd bod prynu FTR yn cyd-fynd â Cham 1 o brosiect Cylchffordd Cymru gan fod swyddogion wedi cytuno wrth drafod y Grant Datblygu Eiddo bod prynu FTR yn elfen allweddol o ddatblygu'r cynnig busnes, yn enwedig o safbwynt bod yn sbardun i ddatblygu'r clwstwr Rasio Cerbydau a'r Sector Uwch Beirianneg a dargedwyd. Byddai'r budd mwyaf yn deillio o'r clwstwr hwn o safbwynt yr effaith ar swyddi lleol ac economi Cymru yn ehangach.

Yn anffodus, oherwydd yr oedi yn sgil methiant HOVDC i sicrhau'r buddsoddiad gofynnol gan y sector preifat, nid oedd modd bwrw ymlaen â'r cynllun arfaethedig i ddatblygu beic modur 'Cymreig', ac aeth cwmni FTR i ddwylo'r gweinyddwyr.

O ganlyniad i'r amgylchiadau annisgwyl hyn, nid yw'r broses benodol o gynnwys FTR fel rhan o'r costau cymwys ar gyfer y Grant Datblygu Eiddo wedi cynrychioli gwerth am arian yn y sefyllfa benodol hon.

**<u>Cwestiwn 5</u>**

**Gwnaethoch hefyd gyfeirio at y gwaith craffu sylweddol a oedd yn cael ei wneud ar y Grant, a byddem yn hoffi gwybod pa fath o waith craffu penodol a wnaed ar yr eitem FTR?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu lefel y craffu ar Grantiau Datblygu Eiddo ers y dyfarniad hwn. Fel y dywedais wrth y pwyllgor wrth gyflwyno fy nhystiolaeth, mae lefel y gwaith craffu yn sylweddol uwch erbyn hyn.

Mewn perthynas â'r eitem FTR, cwestiynwyd yn llafar sail resymegol y pryniant cyn cytuno y byddai costau'r pryniant yn cael eu cynnwys fel gwariant cymwys. Yn sgil craffu ar y cais, ni chaniatawyd rhan o'r gwariant yn ymwneud ag FTR gan ei fod yn ymwneud â chyfalaf gweithio yn hytrach na'r gwariant cymwys ar gyfer y pryniant.

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod angen mwy o waith craffu yn ystod y cam arfarnu cyn cynnwys pryniant FTR yng nghostau cymwys y Grant Datblygu Eiddo. Fel y nodwyd yn y sesiwn dystiolaeth, rydym wedi gwella'r lefel graffu yn y maes hwn.

**<u>Cwestiwn 6</u>**

**Er gwaethaf eich sicrwydd yn y cyfarfod bod y gymeradwyaeth ar gyfer prynu FTR gydag arian y Grant wedi'i hystyried yn fanwl ac yn cyd-fynd gyda'r prosiect mae'r Pwyllgor yn aneglur o hyd ynghylch sut y daethpwyd i'r casgliadau hyn. Felly, a fyddech cystal ag egluro'n union:**

**- sut yr oedd y rhesymeg dros Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HOVDC) i gaffael FTR yn cyd-fynd â dibenion ac amcanion cynllun y Grant Datblygu Eiddo?**

**- sut yr oedd y rhesymeg dros HOVDC i gaffael FTR yn ffitio o fewn dibenion Cam 1 Prosiect Cylchffordd Cymru?**

Mae Cylchffordd Cymru yn brosiect datblygu eiddo unigryw ac roedd y cwmni yn chwilio am gymorth i ddatblygu cynnig busnes er mwyn sicrhau cyllid gan y sector preifat a chyflwyno cais cynllunio. Er nad yw Cylchffordd Cymru yn brosiect eiddo safonol, mae'n cyd-fynd â datblygu eiddo yn fwy nag unrhyw weithgaredd arall. Mae gan Lywodraeth Cymru'r pŵer i ddarparu grantiau at unrhyw ddiben, ond y dewis sy'n cael ei ffafrio, os oes modd, yw cynllun grant safonol.

Mae'r cynllun Grant Datblygu Eiddo yn darparu cymorth i fusnesau ddatblygu a meithrin atebion eiddo yng Nghymru, tra bod grantiau buddsoddi yn tueddu i gael eu defnyddio ar gyfer busnes sydd eisoes yn bodoli neu fusnes newydd yn hytrach nag eiddo.

O ganlyniad, cafodd Grant Datblygu Eiddo ei ystyried yn addas i'r prosiect gan ei fod yn canolbwyntio ar ddatblygu cylchffordd lwyddiannus. Hefyd, roedd HOVDC wedi dweud wrth swyddogion bod cwmni FTR cyn bwysiced i lwyddiant y Prosiect â'r Drwydded MotoGP. Cytunwyd y byddai'r gwariant yn briodol i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Ystyriwyd bod prynu FTR yn cyd-fynd â Cham 1 o brosiect Cylchffordd Cymru gan fod swyddogion wedi cytuno wrth drafod y Grant Datblygu Eiddo bod prynu FTR yn elfen allweddol o ddatblygu'r cynnig busnes arfaethedig, yn enwedig o safbwynt bod yn sbardun i ddatblygu'r clwstwr Rasio Cerbydau a'r Sector Uwch Beirianneg a dargedwyd. Byddai'r budd mwyaf yn deillio o'r clwstwr hwn o safbwynt yr effaith ar swyddi lleol ac economi Cymru yn ehangach.

Pe bai'r broses o brynu FTR wedi'i gohirio tan Gam 2 o'r prosiect, byddai'r achos busnes a oedd yn cael ei ddatblygu i gael hyd i arian sector preifat fel rhan o Gam 1 wedi'i wanhau. Drwy gynnwys FTR yn y rhan hon o'r prosiect, roedd modd dangos bod yna ddiddordeb eisoes ynghyd â lefel o ymrwymiad i Gylchffordd Cymru a'r parc technoleg cysylltiedig.

**<u>Cwestiwn 7</u>**

**Mae'r Pwyllgor yn aneglur o'ch tystiolaeth a byddem yn croesawu eglurhad ynghylch p'un a fyddai cynnwys eitem £300,000 fel FTR, fel y nododd yr Archwilydd Cyffredinol**

**nad yw'n cyd-fynd â dibenion craidd cynllun grant, yn cael ei ystyried yn eithriadol, a'ch rhesymau dros benderfyniad o'r fath.**

Roedd y sail resymegol ar gyfer cynnwys FTR fel costau cymwys ar gyfer cyllid y Grant Datblygu Eiddo yn seiliedig ar y ffaith fod swyddogion yn credu y byddai FTR yn dod ag arbenigedd a fyddai'n sbardun ar gyfer clwstwr o fusnesau cysylltiedig o gwmpas Cylchffordd Cymru yn y dyfodol. Yr adeg hynny, roedd y gwaith o ddatblygu achos busnes ar gyfer Cylchffordd Cymru wedi cyrraedd cyfnod tyngedfennol, ac eglurodd HOVDC wrth swyddogion fod y drwydded MotoGP a phrynu FTR yn ofynnol er mwyn cwblhau'r agweddau ariannol ac yn hanfodol i gefnogi refeniw yn y dyfodol i sicrhau'r buddsoddiad.

Wrth edrych ar y mater ar wahân, rydym yn deall pam y gallai Archwilydd Cyffredinol Cymru ystyried bod prynu FTR yn weithred eithriadol. Fodd bynnag, roedd darparu'r Grant Datblygu Eiddo yn canolbwyntio ar alluogi HOVDC i ymgymryd â phroses datblygu eiddo i gwblhau'r agweddau ariannol: caniatâd cynllunio a chodi arian oedd yr ysgogwyr llwyddiant allweddol. Ar y pryd, roedd swyddogion yn ystyried bod prynu FTR yn cyd-fynd ag amcanion datblygiadau HOVDC a oedd yn cael eu hariannu gan y Grant Datblygu Eiddo, gan ddod i'r casgliad nad oedd prynu FTR yn eithriadol.

Mae'r broses graffu ar geisiadau'r Grant Datblygu Eiddo wedi'i gwella'n sylweddol ers dyfarnu'r cyllid i HOVDC. Erbyn hyn, byddai angen i gais am gyllid Grant Datblygu Eiddo gwerth £2 filiwn gael ei ystyried gan y Tîm Arweinyddiaeth Eiddo (PLT), y Panel Buddsoddi, a Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol (WIDAB) cyn bod argymhelliad yn cael ei wneud i'r Gweinidog perthnasol. Mae'r lefel graffu hon yn sylweddol uwch ac mae'n debygol o sicrhau bod eitemau posibl o natur eithriadol yn cael eu trafod a'u hystyried yn llawn.

Felly, pe bai cyllid y Grant Datblygu Eiddo ar gyfer HOVDC yn cael ei ystyried o dan y broses newydd hon, mae'n debygol y byddai prynu FTR yn cael ei nodi'n weithred eithriadol ac y byddai unrhyw argymhelliad i'r Gweinidog perthnasol yn cyfeirio at hynny.

**Cwestiwn 8**
**Cafodd y Grant ei ôl-ddyddio o dri mis bron (am resymau nad yw Llywodraeth Cymru wedi'u hesbonio i'r Pwyllgor eto) a chafodd y taliad FTR ei wneud cyn i'r grant gael ei ddyfarnu. Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a wnaeth Llywodraeth Cymru adolygu'r contract prynu/gwerthu FTR cyn cymeradwyo i FTR gael ei gynnwys yn rhan o'r grant datblygu eiddo, ac os nad, pam hynny?**

Cafodd y cyllid Grant Datblygu Eiddo i HOVDC ei gymeradwyo gan y Gweinidog ar 9 Awst 2012. Ar ôl cymeradwyaeth y Gweinidog, aeth swyddogion ati i ddatblygu'r llythyr dyfarnu gyda'r gwasanaethau cyfreithiol, gan gyfarfod â HOVDC i egluro manylion y llythyr a'r amodau cysylltiedig. Cafodd y llythyr dyfarnu terfynol ei gyflwyno i HOVDC ar 11 Hydref 2012 a'i lofnodi gan y cwmni ar 16 Hydref 2012.

Nid yw'n anarferol i ddyddiad dechrau'r cyfnod cyllido a nodir yn y llythyrau dyfarnu fod yr un fath â'r dyddiad cymeradwyo, sef yn yr achos hwn 9 Awst 2012. Yn yr achos hwn, nododd y llythyr dyfarnu mai 1 Awst 2012 oedd dyddiad dechrau'r cyfnod cyllido, hynny ar gais HOVDC. Mae newidiadau o'r fath yn cael eu gwneud yn ôl disgresiwn swyddogion perthnasol cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo'n ffurfiol. Mae'r cwmni sy'n gofyn am y cyllid yn derbyn y risg o wneud unrhyw waith rhwng dyddiad dechrau'r cyfnod cyllido a'r dyddiad cymeradwyo.

Yn yr achos hwn, ni wnaeth HOVDC gynnwys unrhyw wariant cyn 9 Awst yn unrhyw un o'r ceisiadau a wnaed yn erbyn cynnig y Grant Datblygu Eiddo.

Ni allaf gadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi adolygu contract gwerthu/prynu FTR cyn cynnwys costau prynu FTR yng nghostau cymwys y grant. Cafwyd digon o dystiolaeth gan Shoosmiths, oedd yn gweithredu ar ran HOVDC, i brofi bod y contract wedi'i arwyddo a'i fod yn ei le cyn talu'r hawliad. Er hynny, yn fy marn i, dylai'r contract FTR fod wedi'i adolygu cyn i'r weithred o brynu FTR gael ei chynnwys fel gwariant cymwys, neu o leiaf cyn talu'r hawliad. Fel y nodwyd yn gynharach, mewn ymateb i gwestiwn 7, mae'r broses graffu ar gyfer ceisiadau'r Grant Datblygu Eiddo wedi'i gwella'n sylweddol ers dyfarnu'r cyllid i HOVDC.

**<u>Cwestiwn 9</u>**

**Mae gan y Pwyllgor bryderon penodol ynghylch y penderfyniad i brynu FTR o bosibl ddim yn cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog. Byddem yn croesawu ymateb ynghylch pam nad oes unrhyw dystiolaeth o gymeradwyaeth o'r cyllid grant ar gyfer caffael FTR yn cael ei dwyn i sylw'r Gweinidogion? Ac o dan ba amgylchiadau y credwch ei bod yn briodol dwyn neu beidio â dwyn eitem o'r fath i sylw'r Gweinidog?**

Fel y nodwyd yn sesiwn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, pan fydd y Gweinidog yn gofyn am gymeradwyo cyllid grant, fel arfer nid yw'r cyngor cysylltiedig yn nodi'r holl wariant cymwys sy'n debygol o gael ei gynnwys yn y llythyr dyfarnu.

Ar y pryd, roedd swyddogion yn credu bod prynu FTR yn cyd-fynd ag amcanion y cynllun Grant Datblygu Eiddo, ac nid oeddent yn ystyried y pryniant yn un eithriadol. Roedd darpariaeth y Grant Datblygu Eiddo yn canolbwyntio ar alluogi HOVDC i ymgymryd â phroses datblygu eiddo er mwyn cwblhau'r agweddau ariannol, ac roedd caniatâd cynllunio a chodi arian yn sbarduno llwyddiant. Roedd swyddogion yn credu bod cynnwys FTR yn elfen bwysig, a gan fod y costau'n cael eu hystyried yn gostau cymwys o safbwynt y Grant Datblygu Eiddo, ni chafodd y pryniant ei ddwyn i sylw penodol y Gweinidog.

Yn gyffredinol, nid yw cyflwyniadau i Weinidogion yn nodi'r holl wariant sydd wedi'i gynnwys mewn cais am grant. Fodd bynnag, dylid dwyn eitemau i sylw'r Gweinidog os ydynt yn newydd, yn ddadleuol, yn eithriadol neu os oes ganddynt oblygiadau.

Fel y nodwyd yng nghwestiwn 7, pe bai'r broses gymeradwyo fanylach ar gyfer y Grant Datblygu Eiddo yn cael ei defnyddio ar gyfer cais Cylchffordd Cymru heddiw, mae disgwyl y byddai prynu FTR wedi cael ei ystyried yn eithriadol a byddai wedi cael ei ddwyn at sylw'r Gweinidog.

**<u>Cwestiwn 10</u>**

**Nododd y Pwyllgor y sylwadau gennych chi a Ms Mayes ynghylch cadw cofnodion, sef y dylai swyddogion gadw cofnodion manwl o'r holl gyfarfodydd a sgyrsiau gydag ymgeiswyr am gyllid ac y byddai arfer da y lefel isaf sy'n angenrheidiol i ddangos pam eich bod wedi gwneud yr hyn y gwnaethoch. Byddai'r Pwyllgor yn hoffi gwybod pa gyfiawnhad sydd ar gyfer y swyddogion yn peidio â chadw cofnodion yn ymwneud â'r penderfyniad ynghylch FTR a pham nad oes unrhyw ddogfennau cyfoes yn ymwneud â FTR?**

Yn yr achos hwn, fy marn i yw y dylai safon y gwaith cadw cofnodion ar y pryd fod yn well. Fodd bynnag, ymddengys mai diffyg gweinyddol a oedd yn gyfrifol am hynny, yn bennaf oherwydd y lefel uchel o wybodaeth gymhleth a oedd yn cael ei rhannu mewn nifer sylweddol o gyfarfodydd ac mewn sgyrsiau eraill rhwng swyddogion a HOVDC; nid yw'n

adlewyrchu penderfyniad ymwybodol ar ran swyddogion i beidio â chadw cofnod priodol o'r broses o wneud penderfyniadau neu gadw dogfennau cyfoes.

Datblygodd y prosiect yn gyflym iawn, ac mae'n debyg y byddai unrhyw drafodaeth ynglŷn â chynnwys FTR wedi digwydd mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn hytrach na thrwy rannu dogfen ar ffurf copi caled. Roedd swyddogion yn fodlon bod y sail resymegol ar gyfer cynnwys FTR yn y Grant Datblygu Eiddo yn cydymffurfio â'r cynllun grant, a bod prynu FTR yn rhan annatod o gam cyntaf y prosiect a fyddai'n galluogi HOVDC i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru a'r adran wedi canolbwyntio mwy ar yr angen i gadw cofnodion priodol er mwyn dangos sail resymegol penderfyniadau sy'n cael eu hargymell a'u gwneud, er enghraifft, rwyf wedi cysylltu â holl swyddogion ESNR i'w hysbysu o bwysigrwydd cadw cofnodion cywir ac mae'r mater wedi'i drafod hefyd yng nghyfarfodydd y tîm rheoli ac ym mhob digwyddiad ar gyfer staff.

**Rhagor o gwestiynau mewn perthynas â thystiolaeth lafar**

**Cwestiwn 11**

**Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddweud bod HoVDC yr ail dro y mae Llywodraeth Cymru wedi darparu gwarant benthyciad. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth am ddarparu gwarantau benthyciad gan Lywodraeth Cymru. Yn benodol:**

**- beth oedd y warant gyntaf y cyfeirir ati yn y dystiolaeth?**

**- sut y cafodd y warant ei sicrhau?**

**- a alwyd arni? Os felly, a gafodd Llywodraeth Cymru yr arian yn ôl?**

**- a oes unrhyw warantau eraill wedi cael eu ceisio, eu gwrthod neu eu darparu?**

Roedd y warant benthyciad gyntaf a ddarparodd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â chyfleuster gorddrafft Unity Mine o'u banc o £2 filiwn. Cyfanswm y warant oedd £1.6 miliwn ac fe'i cytunwyd ym mis Medi 2012.

Sicrhawyd gwarant Unity Mine yn erbyn asedau mwyngloddio ar y safle.

Galwyd y warant i mewn yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14 ar ôl i'r cwmni fynd i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Hydref 2013. Galwyd a thalwyd cyfanswm o £1.56 miliwn i'r banc, ac adenillwyd £1.57 miliwn yn dilyn penderfyniad y gweinyddwyr ar y cyd i werthu'r asedau mwyngloddio ym mis Chwefror 2014. Roedd y taliad o £1.57 miliwn i Lywodraeth Cymru yn cynnwys gwerth y warant a alwyd, yn ogystal â ffioedd a llog, a gwnaed y taliad ym mis Gorffennaf 2014.

Ni yw Unity Mine yn masnachu bellach, a dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn gallu darparu'r wybodaeth am warant y cwmni hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael ceisiadau am warantau oddi wrth drydydd partïon wrth gyd-drafod prosiectau eraill, ac mae rhai o'r ceisiadau hynny wedi mynd ymhellach na'r trafodaethau cychwynnol.

**Cwestiwn 12**

**Mae'r angen am wahanu dyletswyddau o ran swyddogion sy'n ymwneud â chefnogi ceisiadau am gyllid gan y rheini sy'n gyfrifol am awdurdodi taliadau yn rheolaeth sylfaenol. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd gennych chi a Ms Mayes yn y cyfarfod fod y prosesau yn bodoli o fewn Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'r sicrwydd hwn yn dal i ymddangos yn groes i'r canfyddiadau yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod swyddog ar 11 Ionawr 2013 wedi cyfarwyddo ei gydweithiwr cyllid i dalu cais am grant, er nad oedd swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweld y rhannau perthnasol o'r contract gwerthiant amodol. Felly, byddem yn croesawu eglurhad ar sut y mae cyfarwyddyd y swyddog hwn a sut y cafodd ei weithredu yn dangos y gwahaniad priodol o ddyletswyddau.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno’n llwyr ei bod yn hanfodol gwahanu’r dyletswyddau rhwng y tîm cyllid a’r tîm sy’n cysylltu’n rheolaidd ag unrhyw un sy’n derbyn grant.

Yn yr achos hwn, roedd y tîm a oedd yn ymwneud â HOVDC yn rheolaidd wedi derbyn y cais am grant a’r dystiolaeth gysylltiedig gan y cwmni. Credwyd bod manylion y cais yn cadarnhau bod tystiolaeth o wariant wedi’i darparu yn unol â’r llythyr dyfarnu. Trosglwyddwyd y dystiolaeth a’r cadarnhad bod y cais yn ddilys i gael eu hystyried a’u cymeradwyo gan y tîm cyllid wedyn.

Yn unol â’i asesiad annibynnol o’r cais, roedd angen gwybodaeth ychwanegol gan HOVDC ar y tîm cyllid, gan gynnwys anfonebau TAW perthnasol a chadarnhad gan y cynrychiolwyr cyfreithiol perthnasol bod taliadau wedi’u gwneud. O ganlyniad, cafwyd gohebiaeth sylweddol ar ffurf e-bost rhwng swyddogion y ddau dîm er mwyn cadarnhau union natur y dystiolaeth i’w darparu. Cafodd y tîm a oedd yn ymwneud â’r cwmni afael ar y wybodaeth ychwanegol hon gan HOVDC, sy’n arfer cyffredin.

Ar ôl i HOVDC ddarparu’r wybodaeth ychwanegol, rhoddwyd y dystiolaeth i’r tîm cyllid i gael ei hystyried a’i chymeradwyo. Er bod yr e-bost gan y swyddogion a oedd yn ymwneud â chefnogi HOVDC a’i gais am gyllid yn datgan: ‘I therefore would confirm my revised confirmation that the grant claim should be paid’. Argymhelliad oedd hwn, nid cyfarwyddyd. Fel y dangoswyd yn gynharach yn y trywydd e-bost, nid oedd y tîm cyllid yn fodlon cymeradwyo taliad heb dderbyn tystiolaeth ddigonol. Cymeradwywyd y taliad ar sail y ffaith fod tystiolaeth ddigonol wedi’i darparu i’r tîm cyllid er mwyn rhoi’r sicrwydd gofynnol iddo.

Er nad oedd unrhyw un o’r swyddogion a oedd yn ymwneud â’r prosesau hyn wedi gweld y contract gwerthiant amodol yn ei gyfanrwydd, roedd tystiolaeth ddigonol wedi’i darparu i ddangos bod y contract wedi’i lofnodi a’i fod ar waith.

Felly, rwy’n fodlon bod y trywydd e-bost yn dangos bod dyletswyddau wedi’u gwahanu’n briodol.

**<u>Cwestiwn 13</u>**

**Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod taliadau grant y Grant Datblygu Eiddo i HoVDC yn cynnwys ad-dalu HoVDC am flaendal a ddaliwyd mewn ysgrow, ac ni fyddai'r math hwn o daliad fel arfer yn cael ei ystyried yn gymwys i gael grant gan ei fod yn cynrychioli setlo taliad nad yw wedi'i ad-dalu eto. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, dywedodd Ms Mayes yn yr achos hwn y credai Llywodraeth Cymru ei bod yn iawn yn talu'r swm llawn a hawlir i HoVDC, fodd bynnag, nid yw'n glir pam y daethpwyd i'r casgliad hwn. Er ein bod yn derbyn nad yw blaendal a ddelir mewn ysgrow yn anarferol mewn trafodion gwerthiannau eiddo amodol, rydym hefyd yn nodi nad yw symiau o'r fath yn wariant cymwys fel arfer - felly a fyddech cystal ag**

**egluro pam yn yr achos hwn fod Llywodraeth Cymru wedi ystyried bod y taliad hawlio grant hwn yn gywir?**

Nododd llythyr dyfarnu'r Grant Datblygu Eiddo y byddai HOVDC yn cael ei dalu ar sail system ad-dalu, sy'n golygu bod y taliad i gyflenwyr ac ati wedi gorfod gadael cyfrif banc HOVDC. Fel arfer mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod taliad i gyfrif ysgrow yn gymwys ar gyfer grant gan fod y taliad wedi'i ad-dalu gan dderbynnydd y grant. Mewn nifer o achosion, mae taliadau grant wedi'u gwneud ac mae'r gwariant wedi gadael cyfrif derbynnydd y grant a'i roi mewn cyfrif ysgrow.

Yn yr achos hwn, gofynnodd y tîm cyllid am wybodaeth ychwanegol benodol er mwyn dangos bod yr arian wedi'i ad-dalu gan HOVDC. Cafwyd cadarnhad gan gyfreithwyr HOVDC bod y swm o £200,000 ar gyfer y tir wedi'i drosglwyddo i gyfreithiwr y tirfeddiannwr ar 17 Rhagfyr 2012. Yn unol â'r contract rhwng HOVDC a'r tirfeddiannwr, cafodd swm o £100,000 ei gadw gan gyfreithiwr y tirfeddiannwr (yn y cyfrif ysgrow) fel blaendal, a thalwyd y £100,000 arall i'r tirfeddiannwr.

Felly, roedd swyddogion yn fodlon bod HOVDC wedi ad-dalu'r swm o £200,000 yn ei gyfanrwydd, ac felly roedd yn elfen gymwys o'r cais am daliad.

<u>**Cwestiwn 14**</u>

**Mewn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor ynghylch pam nad oedd cyfrifon HoVDC wedi'u harchwilio, dywedodd Ms Mayes nad oedd cyfrifon y cwmni wedi'u harchwilio am nad oedd yn ofynnol i'r cwmnïau wneud hynny. Mae gennym rai pryderon sylweddol am hyn gan mai un o ofynion y cytundeb gwarant benthyciad oedd i HoVDC ddarparu cyfriflenni ariannol wedi'u harchwilio i Lywodraeth Cymru. Felly, hoffem eglurhad ynghylch pam y cafodd yr amod hwn i ddarparu cyfriflenni ariannol wedi'u harchwilio ei osod fel rhan o warant y benthyciad? Ac yna pam na chafodd yr amod hwn ei orfodi?**

Mae'r cytundeb gwarant benthyciad rhwng HOVDC a Gweinidogion Cymru yn datgan yng Nghynsail yr Amodau bod angen i HOVDC ddarparu copi o'i 'audited financial statements for the period ending 31 May 2014'. Mae hwn yn amod bancio safonol ac roedd wedi'i gynnwys yn y cytundeb fel y gallai weithredu o dan delerau masnachol yn unol ag Egwyddorion Gweithredol Economi'r Farchnad (MEOP). O ystyried statws y cwmni, dylai'r amod fod wedi'i eirio'n well i ofyn am ddarparu cyfrifon statudol, gan nad oedd rhwymedigaeth gyfreithiol ar HOVDC i ddarparu cyfrifon wedi'u harchwilio.

Lluniwyd y cytundeb gan y tîm cyfreithiol allanol a oedd yn cynghori Gweinidogion Cymru, a gofynnodd y tîm hwn i gyfreithwyr HOVDC am y dystiolaeth ar gyfer y Cynsail Amodau. Wedyn, cadarnhaodd cyfreithwyr HOVDC ar ffurf ysgrifenedig na allent ddarparu cyfrifon wedi'u harchwilio ar gyfer mis Mai 2014 gan nad oedd unrhyw ddatganiadau ariannol a archwiliwyd wedi'u paratoi ar gyfer HOVDC. Yn hytrach, derbyniodd ein cyfreithwyr ddatganiadau ariannol heb eu harchwilio ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mai 2013. Hefyd, darparwyd cyfrifon rheoli a rhagolygon llif arian hyd at fis Rhagfyr 2014. O ystyried bod trefniadau ar waith i lofnodi'r cytundeb ym mis Gorffennaf 2014, nid oes syndod nad oedd cyfrifon ar gael ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mai 2014.

Wedyn, hysbysodd ein cyfreithwyr y swyddogion fod HODVC wedi darparu tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd bod yr amod penodol hwn wedi'i fodloni, a'i fod wedi darparu copïau caled o'r dystiolaeth ar gyfer yr amod hwn ac amodau eraill.

<u>**Cwestiwn 15**</u>

**Cwestiynodd y Pwyllgor y penderfyniad i beidio â rhoi gwybod i Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru am y cymorth gwarant benthyciad posibl pan oeddent yn ystyried a ddylai gefnogi'r cais cyllid busnes ad-daladwy o £80 miliwn ar gyfer y prosiect hwn. Byddem yn croesawu eglurhad, pe byddai'r un amgylchiadau'n codi, a fyddai Llywodraeth Cymru bellach yn dweud wrth Fwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru am y warant benthyciad posibl?**

Mae canllawiau Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru wedi'u diweddaru yn sgil argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru ar ôl rhoi cyllid cychwynnol i Gylchffordd Cymru.

Mae'r Canllaw Cyllid Busnes diwygiedig yn datgan, fel rhan o'r broses argymhellion ar gyfer achos Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru, bod yn rhaid i Bennaeth y Sector sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am unrhyw gymorth arall sy'n cael ei roi i brosiect gan Lywodraeth Cymru, waeth a yw'r cymorth hwnnw wedi'i gymeradwyo eto ai peidio.

O ganlyniad i'r canllaw diwygiedig hwn, bydd Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru yn cael gwybod am gymorth gwarant benthyciad posibl os yw'r un amgylchiadau'n codi.

**<u>Cwestiwn 16</u>**
**Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynghylch y canfyddiadau yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod swyddogion Llywodraeth Cymru ei hun yn cynghori y gallai darparu'r warant benthyciad yn ychwanegol at y Cyllid Busnes Ad-daladwy fod yn broblem o ran cymorth gwladwriaethol ac na all gynnig unrhyw sicrwydd i Weinidogion y byddai'r cynigion yn sefyll i fyny i ddadansoddiad neu archwiliad barnwrol gan y Comisiwn Ewropeaidd. O ystyried y cyngor a roddwyd i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r risg o ddarparu Cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon, hoffem gael eglurhad pellach ar ba sail y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel buddsoddwr yn y farchnad?**

Cyn argymell bod gwarant yn cael ei darparu i HOVDC, roedd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gyfradd llog yn cyd-fynd ag egwyddorion economi'r farchnad. Wrth benderfynu'r llog i'w chodi ar HOVDC ar gyfer y warant, ystyriodd swyddogion y canlynol:

- Y gyfradd llog a godwyd gan fanc HOVDC ar gyfer gwarant benthyciad prosiect Cylchffordd Cymru;
- Y cyfraddau llog y byddai Cyllid Cymru wedi'u codi ar gwmni bach ar gyfer benthyciad heb ei warantu; a
- Chanllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar benderfynu methodoleg y gyfradd gyfeirio (<u>http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:52008XC0119(01)&from=EN)</u> ar gyfer cwmni newydd â lefel gwarant isel.

Roedd y gyfradd llog a godwyd ar HOVDC ar gyfer y warant yn uwch na'r cyfraddau llog a nodwyd yn y gwaith ymchwil hwn. Defnyddiwyd arbenigedd cyfreithiol allanol i ddatblygu contract cyfreithiol manwl, gan gynnwys gwarantu asedau'r HOVDC (a'i is-gwmnïau) a chynnydd sylweddol yn y gyfradd llog pe bai'r warant yn cael ei galw i mewn.

Roedd y broses o roi'r fethodoleg hon ar waith yn rhoi sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel buddsoddwr yn y farchnad.

Wrth ddarparu cyngor i Weinidogion, mae'n hollbwysig bod swyddogion yn rhoi gwybod i Weinidogion am unrhyw beryglon posibl sy'n gysylltiedig ag unrhyw benderfyniad. Gall y

broses o roi cymorth gwladwriaethol, ac o ddefnyddio egwyddor gweithredwr economi'r farchnad yn benodol, arwain at her bob amser. Amlygwyd y perygl hwn yn y cyngor a roddwyd i'r Gweinidog er mwyn iddi allu gwneud penderfyniad oedd yn seiliedig ar ffeithiau, gan ystyried yr holl wybodaeth a'r dadansoddiadau oedd ar gael.

__Cwestiwn 17__

**Ychydig o eglurder a gafodd y Pwyllgor ynghylch ei gwestiynau am ba sicrwydd oedd gan Lywodraeth Cymru o ran gallu HoVDC i dalu gwarant y benthyciad yn ôl. O ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru, a ydych bellach yn cytuno bod Llywodraeth Cymru wedi, mewn gwirionedd, darparu cyllid heb risg i HoVDC, a allai dorri rheolau Cymorth Gwladwriaethol? Os nad ydych yn cytuno, pam ddim?**

Cafwyd sicrwydd ar gyfer y warant gan Lywodraeth Cymru ar ffurf dyledeb dros holl asedau HOVDC a'i is-gwmnïau, er bod y sicrwydd hwn wedi'i osod y tu ôl i dâl cyntaf o £2 miliwn o blaid benthyciwr cyfleuster ar wahân. Wrth ddyfarnu gwarant y benthyciad hwn, rhoddwyd ystyriaeth i raddfa risg Llywodraeth Cymru a lefel y sicrwydd a oedd ar gael, a phennwyd ffi'r warant yn unol â chyfradd y farchnad ar gyfer darparu cyllid o'r fath.

Wrth warantu benthyciad ar delerau masnachol yn unig, roedd Llywodraeth Cymru yn gweithredu yn unol ag Egwyddor Gweithredwr Economi'r Farchnad (MEOP) yn unol â diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd, felly nid oedd yn cyflwyno Cymorth Gwladwriaethol.

Rhoddwyd cyngor i Weinidogion bod hwn yn drafodiad risg uchel, ac fel sy'n wir am bob achos o'r fath, hysbyswyd Gweinidogion bod her Cymorth Gwladwriaethol yn bosibl (fel sy'n wir am bob achos MEOP).

Nid ydym yn cytuno bod HOVDC wedi derbyn cyllid heb risg, ac rydym yn credu bod y cwmni, mewn gwirionedd, wedi ymrwymo i gyfleuster benthyciad heb ei warantu a brisiwyd yn unol â'r farchnad ac a oedd yn ddrutach o lawer na chyfleuster tebyg wedi'i warantu. Mae Cylchffordd Cymru yn brosiect byw o hyd, ac mae posibilrwydd y gall y warant gael ei had-dalu, gyda llog, i Lywodraeth Cymru.

**Eglurhad a gwybodaeth ychwanegol**

__Cwestiwn 18__

**Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, gwnaethoch ddyfynnu ffigur o 20 y cant fel y gyfran nodweddiadol o gyfanswm cost y prosiect a oedd ei angen i gyrraedd y cyllid gofynnol, a arweiniodd atoch yn dod i'r casgliad fod amlygiad Llywodraeth Cymru o 2 y cant ar gyfer cyfanswm cost y prosiect o tua £400 miliwn i gynrychioli gwerth da am arian. Beth yw'r ffynhonnell ar gyfer y ffigur hwn o 20 y cant? A fyddech cystal ag egluro pa fath o brosiect a ddefnyddir i gyfrifo'r ffigur yn ogystal ag egluro pam mae prosiectau o'r fath yn gymaryddion priodol ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru?**

Yn ôl profiad Grant Thornton UK LLP, gall costau datblygu fod tua 20% o gytundebau eiddo ac adfywio. Yn anffodus, nid oes modd darparu manylion y prosiectau unigol sy'n sail i'r wybodaeth hon gan nad yw Grant Thornton yn gallu nodi prosiectau unigol oherwydd cyfyngiadau cyfrinachedd cleientiaid.

Yn gyffredinol, nodir bod modd rhannu pris cynllun ar sail costau tir (traean), costau adeiladu (traean) ac elw (traean), gyda'r olaf yn cynnwys costau datblygu. Os yw'r elw rhwng 10-15% (sy'n cyfateb yn fras i Gost Gyfartalog Cyfalaf wedi'i Phwysoli ar gyfer y sector adeiladu) mae'r costau datblygu tua 20%. Er bod Grant Thornton UK LLP wedi nodi'r rheol hon, nododd nad oes ganddo unrhyw wybodaeth am yr achos penodol, ac na all

fynegi safbwynt diffiniol o’r herwydd. Mae’r bras amcan ond yn gallu nodi ystod debygol y costau yn hytrach na farn bendant.

**Cwestiwn 19**

**Roeddem yn synnu eich bod wedi nodi nad oeddech yn credu bod nifer y cwmnïau neu unigolion cysylltiedig mor uchel â naw, sef y ffigur a ddyfynnwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, o ystyried bod yr adroddiad wedi'i wirio gyda HoVDC. Mae'r Pwyllgor yn deall o gais Rhyddid Gwybodaeth a ddatgelwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru mai enwau saith cwmni [ni chafodd enwau dau unigolyn arall eu datgelu] oedd:**

**- Aventa Capital Partners Ltd;**

**- Stephenson Harwood LLP;**

**- Insight Infrastructure Ltd;**

**- Shaun Meadows Marketing Ltd;**

**- Barton Communications Ltd;**

**- Kalergo Ltd; ac**

**- Altitude Aviation Advisory Ltd**

**Pa un o'r cwmnïau yn y rhestr a ddatgelwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru y cred Llywodraeth Cymru nad ydynt yn gysylltiedig a beth y credwch yw'r ffigur cywir ar gyfer cyfanswm nifer y cwmnïau neu unigolion cysylltiedig a oedd yn cael taliadau o dan y Grant Datblygu Eiddo neu'r trefniant gwarant benthyciad?**

Mae proses diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru yn cynnwys ystyried cyfarwyddwyr a chyfranddalwyr cwmnïau sy’n gwneud cais am gyllid. Mae gwiriadau’n cael eu gwneud i benderfynu a oes gan y cyfarwyddwyr neu’r cyfranddalwyr unrhyw gwmnïau cysylltiedig a/neu ddyfarniadau llys sirol, neu a oes unrhyw gyfarwyddwr wedi’i wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr ar unrhyw adeg. Os oes problemau neu bryderon yn codi, mae rhagor o ymchwiliadau i’r meysydd penodol hyn yn cael eu cwblhau. Ni fyddem yn ystyried o reidrwydd bod gan gyfarwyddwyr neu gyfranddalwyr cwmnïau cysylltiedig y gallu i ddylanwadu ar y cwmni sy’n cael ei ariannu yn ôl y drefn arferol ac felly, ni fyddem yn edrych arnynt. Byddem yn canolbwyntio yn hytrach ar yr unigolion sydd â’r gallu uniongyrchol i ddylanwadu

Er bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi cwmnïau sydd â chysylltiadau â HOVDC, mae rhai o’r cysylltiadau’n ehangach na’r hyn y byddai Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yn gwmni neu’n unigolyn cysylltiedig.

Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn rhestr Swyddfa Archwilio Cymru o gwmnïau sydd â rhai cysylltiadau ehangach â HOVDC, nid oes un o’r cwmnïau a restrir isod yn rhannu cyfarwyddwyr neu gyfranddalwyr â HOVDC. Felly ni fyddent yn gallu cael effaith ar waith HOVDC o ddydd i ddydd:

- Shaun Meadows Marketing Ltd;
- Barton Communications Ltd; a
- Kalergo Ltd.

O’r rhestr o gwmnïau a nodir uchod, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod y cwmnïau canlynol yn gysylltiedig â HOVDC oherwydd bod ganddynt gyfarwyddwyr neu gyfranddalwyr cyffredin:

- Stephenson Harwood LLP;
- Aventa Capital Partners Ltd;
- Insight Infrastructure Ltd;
- Altitude Aviation Advisory Ltd

Derbyniodd y cwmnïau hyn daliadau o dan y Grantiau Datblygu Eiddo neu'r trefniadau gwarant benthyciad.

Er mwyn sicrhau bod cwmnïau cysylltiedig sy'n darparu gwasanaethau i dderbynnydd grant posibl yn cael eu nodi, mae newidiadau wedi'u gwneud i ffurflen gais a chanllawiau Cyllid Busnes yn unol ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru. Mae proses diwydrwydd dyladwy ychwanegol yn mynd rhagddi bellach os oes cwmni cysylltiedig yn cael ei nodi fel cyflenwr ar y ffurflen gais ar gyfer cyllid.

Gall cyfarwyddwyr a chyfranddalwyr newid ar wahanol adegau, ac mewn rhai achosion ni fydd y sefydliad sy'n gwneud cais am gyllid wedi nodi'r holl gyflenwyr wrth gyflwyno'r cais. Felly, ni all Llywodraeth Cymru lwyddo bob amser i liniaru'r risg bosibl o dderbynwyr grantiau'n defnyddio cwmnïau cysylltiedig. Mae'n rhaid i unrhyw gwmni sy'n cael ei ddefnyddio fel cyflenwr ddarparu ei wasanaethau ar sail hyd braich, a dangos gwerth am arian hefyd.

<u>**Cwestiwn 20**</u>

**Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, gwnaethoch ddweud y bu cyfanswm gwariant o £55 miliwn gan bob parti, ac mae gan Lywodraeth Cymru amlygiad o tua £9.2 miliwn. Mae hwn yn ffigur sy'n fwy na'r £30 miliwn a ddyfynnwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, lle roedd y ffeithiau wedi'u gwirio gyda HoVDC. Aethoch ati i wirio'r swm o £55 miliwn a darparu'r wybodaeth i'r Pwyllgor. A fyddech cystal â chadarnhau faint o fuddsoddiad sector preifat a wnaed yn y Prosiect sydd bellach mewn perygl yn sgil y penderfyniad gan Lywodraeth Cymru. A fyddech cystal hefyd â darparu ffynhonnell y wybodaeth hon a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i wirio ei bod yn gywir?**

Roedd y ffigur o £55 miliwn yn deillio o ddogfen gyfrinachol a dderbyniodd Llywodraeth Cymru gan HOVDC ar ôl cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Ni ystyriwyd y wybodaeth hon yn rhan o'r diwydrwydd dyladwy ac nid oedd yn rhan o Bapur y Cabinet. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal unrhyw archwiliadau manwl ar y wybodaeth a ddarparwyd gan HOVDC, ond mae'r adolygiad lefel uchel yn awgrymu bod y sector preifat wedi cyfrannu tua £50 miliwn yn y prosiect.

<u>**Cwestiwn 21**</u>

**Gwnaethoch gyfeirio at nifer y busnesau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cefnogi a'r cyfraddau methu sy'n gysylltiedig â hwy, gan nodi bod 1,000 o fuddsoddiadau dros bum mlynedd, lle roedd 3.4 y cant wedi mynd o chwith. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu gwybodaeth am y ffynhonnell a chywirdeb y ffigurau a ddyfynnwyd. At hynny, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad o'r hyn a olygir gennych mewn perthynas â 'mynd o chwith' - a ydych yn golygu methiant busnes, methu â chyrraedd y canlyniad a fwriadwyd (e.e. swyddi a grëwyd) neu rywbeth arall? A fyddech cystal ag egluro sut yr ydych yn diffinio llwyddiant a methiant.**

Ffynhonnell y data hwn yw cofnodion mewnol cynigion cymorth a wnaed o dan gymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllid Busnes[1], yn ystod cyfnod y Pedwerydd Cynulliad (mis Mehefin 2011 hyd at fis Ebrill 2016). Dylid nodi bod y data hwn wedi'i goladu mewn 'dadansoddiad ciplun' o gofnodion hanesyddol ym mis Tachwedd 2016, ac ar y pryd roedd yn cael ei ystyried yn adlewyrchiad teg o gynigion a wnaed yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Gwnaed 1,264 o gynigion yn ystod y cyfnod hwn.

Er mwyn cadarnhau ystyr "mynd o chwith" yng nghyswllt y cynigion hyn, roedd 43 (3.4%) o'r prosiectau wedi methu sicrhau'r holl allbynnau disgwyliedig o dan delerau ac amodau penodol eu cynigion cymorth unigol. Felly, roedd y prosiectau hyn yn wrthrych rhyw fath o broses adennill grant gan swyddogion Llywodraeth Cymru, gan arwain at gyhoeddi anfoneb ffurfiol o dan brotocolau rheoli dyledion.

Roedd 32 (2.53%) o'r holl brosiectau a gefnogwyd yn destun ansolfedd busnes, diddymu busnes neu broses o'r busnes yn mynd i ddwylo'r gweinyddwyr. Yn yr achosion hyn, ni allai swyddogion gynorthwyo'r busnes cyn iddo fethu a chyn penodi ymarferydd ansolfedd.

Roedd yr 11 prosiect arall (0.87%) yn destun rhyw fath o weithgaredd adennill, oherwydd methiant y busnes i gyflawni ei ymrwymiadau parhaus (i greu/diogelu swyddi a/neu brynu/cadw asedau) o dan delerau ac amodau'r cynnig o gymorth. Ym mhob un o'r achosion hyn, llwyddodd y busnes unigol i barhau i fasnachu, ac aeth swyddogion ati i reoli dyledion er mwyn adennill arian a ryddhawyd i'r busnes ynghynt.

Nodir bod prosiect wedi methu os, ar ôl derbyn taliad yn unol â'i lwyddiannau, mae'r derbynnydd yn methu cynnal yr asedau a'r swyddi sy'n gysylltiedig â'r prosiect am yr amser gofynnol a nodir yn amodau a thelerau'r cynnig. Gall y methiant hwn ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod oes y prosiect.

Pan fydd y taliad terfynol wedi'i wneud, mae'n rhaid i bob prosiect fodloni cyfnod yr "amodau" sy'n berthnasol i bob cynnig unigol. Mae'n rhaid sicrhau bod swyddi ac asedau a gefnogir gan y prosiect yn para gydol y cyfnod hwn.

Cyfnodau'r amodau sy'n berthnasol i gynigion a wnaed o dan Gymorth Busnes yw 3 blynedd (BBaChau) a 5 mlynedd (busnesau nad ydynt yn BBaChau), gan ddechrau ar ddyddiad y taliad cymorth olaf/terfynol.

Bydd prosiect llwyddiannus yn bodloni cyfnodau'r amodau hyn yn llawn.

**Cwestiwn 22**

**Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, holodd y Pwyllgor chi ynghylch a oedd y diwydrwydd dyladwy ar gyfer y rhaglen yn drylwyr ac y gorau posibl. Oherwydd y broses barhaus, roeddech yn methu â rhoi ymateb llawn i hyn yn ystod y cyfarfod ond darparwyd nodyn gennych yn rhoi mwy o fanylion am y broses diwydrwydd dyladwy yn dilyn penderfyniad y Cabinet. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gynnwys y nodyn hwn fel rhan o'r ymateb i'r llythyr hwn.**

Wrth gynllunio'r broses diwydrwydd dyladwy, ystyriodd Llywodraeth Cymru ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, a'r math o broses y byddai

[1] Mae Cyllid Busnes yn berthnasol i nifer o gynlluniau cyllido a oedd ar gael yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys Cronfa Twf Economaidd Cymru, Cyllid Busnes Ad-daladwy, Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth, Cronfa Datblygu Digidol, SMART Cymru.

buddsoddwr yn economi'r farchnad yn ei rhoi ar waith yng nghyd-destun natur y prosiect a graddfa'r cymorth ariannol gofynnol.

Rhoddwyd proses diwydrwydd dyladwy gynhwysfawr a chadarn ar waith gan gynghorwyr allanol yn dilyn y cais am gymorth gan HOVDC. Fel rhan o'r diwydrwydd dyladwy, adolygwyd y pryderon masnachol arferol yn ymwneud â chynllun busnes y cwmni, y gost o lunio dadansoddiad o'r farchnad a chontractau cyfreithiol. Hefyd, mae'r tîm diwydrwydd dyladwy wedi adolygu'r effaith economaidd a hawliwyd gan y cwmni, y sefyllfa gyfreithiol yn ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol, a'r effaith ar gyllid a chyllidebau Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae wedi cynnwys adolygiad deallusrwydd corfforaethol o unigolion allweddol (prawf person addas a phriodol). Yn unol ag argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru yn ei hadolygiad diweddar o'r cyllid cychwynnol a ddyfarnwyd i'r prosiect, ystyriodd yr arbenigwyr cyllid drafodion cwmnïau cysylltiedig yn y gorffennol ac wrth symud ymlaen.

I grynhoi, comisiynwyd diwydrwydd dyladwy allanol yn y meysydd canlynol:

- Diwydrwydd Dyladwy Ariannol
- Asesiad o Berson Addas a Phriodol[2]
- Dadansoddiad o'r Farchnad
- Dadansoddiad o'r Effaith Economaidd
- Cynghorwyr Syrfewyr Meintiau
- Cynghorwyr Cyfreithiol ym maes Contractau
- Cynghorwyr Cyfreithiol ym maes Cymorth Gwladwriaethol

Darparwyd diwydrwydd dyladwy mewnol ychwanegol ym maes cyfraith gyhoeddus.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith wedi datgan y bydd y wybodaeth briodol am ddiwydrwydd dyladwy y mae modd ei rhyddhau yn cael ei chyhoeddi. Mae swyddogion yn ystyried faint o'r cyngor hwn y gellir ei ryddhau oherwydd ymrwymiadau cyfrinachedd, y Ddeddf Diogelu Data ac ystyriaethau cyfreithiol a masnachol eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r wybodaeth berthnasol maes o law.

**Cwestiwn 23**

**Yn natganiad Ysgrifennydd y Cabinet yn y cyfarfod llawn ar 27 Mehefin, dywedodd wrth Aelodau'r Cynulliad: "*yn dilyn trafodaethau â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a Thrysorlys Ei Mawrhydi yn ystod y broses diwydrwydd dyladwy, asesir bod risg sylweddol iawn y byddai dyled lawn £373 miliwn prosiect cyfan Cylchdaith Cymru yn cael ei dosbarthu fel gwariant cyfalaf Llywodraeth Cymru*". Hoffai'r Pwyllgor eglurhad o ran pryd y cynhaliwyd y trafodaethau hyn, a phryd yn y broses diwydrwydd dyladwy y nodwyd y broblem cyfrifyddu hon am y tro cyntaf.**

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y canllawiau dosbarthu â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ers haf 2015. Roedd y trafodaethau hyn yn gymorth i swyddogion Llywodraeth Cymru asesu risg prosiect Cylchffordd Cymru. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn darparu cyngor dosbarthu ffurfiol ar gontractau terfynol yn hytrach nag ar ddatblygiadau posibl. Fodd bynnag, mae'n cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru i sicrhau bod penderfyniadau polisi yn seiliedig ar wybodaeth.

---

[2] Wrth wneud y penodiad mewn perthynas â phrawf person addas a phriodol, roedd swyddogion yn ymwybodol o'r angen i gynnwys adolygiad o gwmnïau cysylltiedig, a phartneriaid Aventa Capital yn benodol. Ystyriwyd bod yr agwedd hon ar y gwaith yn ofyniad masnachol arferol, ond ei bod hefyd yn cydnabod y materion a godwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ei adroddiad ym mis Ebrill yn ymwneud â'r cyllid cychwynnol ar gyfer y prosiect.

Bu swyddogion yn trafod agweddau ar gynnig Cylchffordd Cymru â thîm dosbarthu Thrysorlys Ei Mawrhydi ers mis Mawrth 2016 ac mor ddiweddar â mis Mehefin 2017. Cwblhawyd yr asesiad o ddosbarthiad y risg yn ymwneud â chynnig Cylchffordd Cymru yn benodol gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar sail cyngor gan Drysorlys Ei Mawrhydi, ac fe gafodd ei lywio gan ganfyddiadau adroddiadau diwydrwydd dyladwy allanol ym mis Mehefin 2017.

**Cwestiwn 24**

**Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyfeiriad at 'grŵp llywodraethu mewnol' o fewn Llywodraeth Cymru i ddarparu her arbenigol. Hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth am y Grŵp hwn, pwy sy'n rhan o'r Grŵp; pa her y maent yn ei gynnig o ran Cylchffordd Cymru, a sut y gwnaeth swyddogion ymateb?**

Sefydlwyd y Grŵp Sicrwydd Mewnol ym mis Mawrth 2017 i ddarparu lefel ychwanegol o graffu ar y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â phrosiect Cylchffordd Cymru. Cyfarfu’r grŵp dair gwaith i drafod y cynnig cyn i bapur y Cabinet gael ei gyflwyno ym mis Mehefin 2017. Rôl y grŵp oedd cynorthwyo swyddogion yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol i gyflwyno adroddiad teg a chytbwys i’r Cabinet a oedd yn cynnwys yr holl feysydd pryder allweddol.

Roedd y grŵp yn cynnwys unigolion allweddol ledled Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Cyfarwyddwr Cyllid, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, y Prif Economegydd a Chyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol. Hefyd, roedd y grŵp yn cynnwys Cyfarwyddwyr ac unigolion â sgiliau allweddol (e.e. llywodraethu, Cyllid, cyfathrebu) yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.

Llwyddodd y grŵp i ddarparu lefel sylweddol o her i’r broses ddiwydrwydd dyladwy gan sicrhau nad oedd ystyriaethau allweddol wedi’u hesgeuluso neu nad oedd swyddogion yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol wedi gwneud unrhyw ragdybiaethau. Cafodd her y Grŵp ei chroesawu gan swyddogion yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol.

Rhannwyd yr adroddiadau diwydrwydd dyladwy â’r grŵp ynghyd ag adroddiadau arfarnu ar ganfyddiadau’r arbenigwyr allanol. Cofnodwyd y materion perthnasol a godwyd gan y Grŵp Sicrwydd ym mhapur y Cabinet a oedd yn sylfaen i benderfyniad y Llywodraeth.

**Ymatebion Llywodraeth Cymru i Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol**

**Cwestiwn 25**

**Fel y trafodwyd yn ystod y sesiwn dystiolaeth, roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidogion a oedd yn mynegi *syndod a siom* Llywodraeth Cymru o ran penderfyniad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi ei adroddiad yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad; a nododd nad oedd wedi cael digon o amser i ystyried ac ymateb i'r adroddiad cyn ei gyhoeddi. Roedd ymateb dilynol i gwestiwn ysgrifenedig y Cynulliad gan Adam Price yn egluro bod swyddogion yn gwybod am y cyhoeddiad a fwriadwyd o'r adroddiad ar 17 Mawrth 2017. O ystyried bod swyddogion yn gwybod dros fis cyn i'r Gweinidog gael eu hysbysu'n ffurfiol, byddem yn croesawu eglurhad ynghylch a oedd y Gweinidog wedi cael gwybod yn <u>anffurfiol</u> am fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi cyn cael gwybod yn ffurfiol ar 24 Ebrill?**

Mae swyddogion wedi methu nodi unrhyw dystiolaeth bod y Gweinidog wedi cael gwybod yn anffurfiol am fwriad yr Archwilydd Cyffredinol i gyhoeddi ei adroddiad cyn cael gwybod yn ffurfiol ar 24 Ebrill.

**Question 26**

**Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus ar nifer o achlysuron drwy gydol y sesiwn dystiolaeth eich bod wedi honni bod gwallau ffeithiol yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei ddeall, mae adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol yn destun proses glirio sylweddol a thrwyadl er mwyn bod mor deg a chywir â phosibl, ac rydym yn dibynnu ar yr adroddiadau hyn i wneud gwaith craffu pellach o bynciau sy'n aml yn sensitif ac rydym yn ystyried yr awgrymiadau o wallau yn yr adroddiad yn ddifrifol iawn. Felly, ar wahân i'r gwall sy'n nodi bod y prawf Effeithlonrwydd Economaidd yn brawf y DU ac nid prawf Cymru, a fyddech cystal â rhoi manylion, gyda thystiolaeth ategol, am y gwallau eraill yn yr adroddiad?**

Mae fy sylwadau ynglŷn â chywirdeb adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ymwneud â'n pryderon y gallai rhai o'r manylion fel y'u cyflwynir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, heb gynnwys gwybodaeth am y cyd-destun cysylltiedig a gwybodaeth ychwanegol, arwain at gamddehongli'r manylion neu gasgliadau anghywir gan ddarllenwyr nad oes ganddynt wybodaeth am y materion dan sylw.

Mewn nifer o feysydd, roeddem wedi gofyn i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu gwybodaeth ychwanegol i greu darlun llawnach, gan alluogi eraill i ddod i gasgliad teg wrth graffu ar yr adroddiad. Byddwn yn hapus i roi copi o'm llythyr at yr Archwilydd Cyffredinol a oedd yn trafod y materion hyn i'r Pwyllgor.

**Cwestiwn 27**

**Yn olaf, yn ystod y sesiwn dystiolaeth gwnaethoch gyfeirio at fod wedi dysgu gwersi o ganlyniad i gyllid cychwynnol Cylchffordd Cymru, a fydd yn caniatáu inni wneud pethau'n well y tro nesaf. A fyddech cystal â nodi'r gwersi a ddysgwyd a pha gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd?**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud gwelliannau parhaus ac mae'n awyddus bob amser i wella ei phrosesau. Er enghraifft, ym mis Mehefin 2014 fel rhan o'n gwelliannau i'r broses gymeradwyo ar gyfer Benthyciadau Masnachol, ystyriwyd Grantiau Datblygu Eiddo a gefnogir gan y sector yn y broses Cymeradwyo Ariannol.

Cyflwynodd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar gyllido Cylchffordd Cymru nifer o argymhellion, ac mae Llywodraeth Cymru wedi dysgu gwersi yn sgil yr argymhellion hyn:

- Erbyn hyn, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddatgelu yn y ffurflen gais Cyllid Busnes a fydd unrhyw drafodion yn ymwneud â Chyllid Busnes yn cael eu cwblhau drwy gwmnïau cysylltiedig. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu manylion y trafodion hyn. Bydd y wybodaeth a ddarperir gan yr ymgeisydd yn cael ei defnyddio fel rhan o weithdrefnau diwydrwydd dyladwy Llywodraeth Cymru;
- Fel rhan o'r broses argymhellion ar gyfer achos Bwrdd Cynghorol Datblygu Diwydiannol Cymru, mae'n rhaid i Bennaeth y Sector sicrhau bod y Bwrdd yn cael gwybod am yr holl gymorth arall gan Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiect y gofynnir iddo ei ystyried, waeth a yw'r cymorth wedi'i gymeradwyo eto ai peidio. Mae ein canllawiau mewnol wedi'u cryfhau er mwyn adlewyrchu'r gofyniad hwn;
- Pwysigrwydd cadw cofnod ysgrifenedig o ddadansoddiad prosiect sy'n cynnwys tystiolaeth allweddol, dadansoddi a lleihau risg, a sail resymegol unrhyw argymhellion i Weinidogion.
- Pwysigrwydd neilltuo amser ar gyfer cymeradwyo gyda swyddogion priodol, sy'n meddu ar wybodaeth fanwl a dealltwriaeth glir o amserlenni ac ati.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried gwarant mewn nifer fach iawn o achlysuron yn unig, ac ym mhob achos mae'r amgylchiadau a'r manylion wedi bod yn wahanol iawn. Er bod gwarantau'n un math o MEOP yn unig, mae swyddogion wedi ennill profiad sylweddol yn y maes hwn, gan ddatblygu methodoleg sy'n llawer mwy effeithiol na'r hyn a oedd ar waith adeg gwarant Cylchffordd Cymru. Y wers allweddol sydd wedi'i dysgu o brofiad Cylchffordd Cymru yw ein bod bellach yn cael tystiolaeth o MEOP gan gynghorwyr allanol er mwyn rhoi sicrwydd ynglŷn â masnachadwyedd telerau'r cytundeb.

**ATODIAD 2**

**Ymateb i Gwestiynau a godwyd gan y Clerc ym mis Mehefin 2017**

**1. Cyfanswm y gwariant a ysgwyddwyd a'r cyllid sydd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn**

Mae cyfanswm y gwariant a ysgwyddwyd yn ôl Cwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HOVDC), hyd at ddechrau mis Mehefin, wedi'i nodi yn yr ymateb i Gwestiwn 20 yn Atodiad 1.

Mae cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau Cylchffordd Cymru fel a ganlyn:

- £2 filiwn: Cronfa Grant Datblygu Eiddo
- £7.3 miliwn: Ad-dalu benthyciad banc HOVDC o dan Warant Llywodraeth Cymru.

**2. Canllawiau mewnol y mae swyddogion yn eu dilyn wrth asesu ceisiadau am grantiau;**

Mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru wedi datblygu safonau gofynnol ar gyfer asesu ceisiadau am grantiau. Mae'r safonau gofynnol hyn yn darparu arferion gorau ym meysydd datblygu, cyflwyno a monitro cynlluniau grant ledled Llywodraeth Cymru. Mae swyddogion yn defnyddio'r safonau hyn i ddatblygu cyfarwyddiadau desg cymesur ar gyfer cynlluniau grant unigol.

Mae'r safonau gofynnol ar gyfer cynlluniau grant seiliedig ar geisiadau ar gael ar fewnrwyd Llywodraeth Cymru: http://gov.wales/funding/grants/contact-us/?skip=1&lang=cy

Byddai'r safonau gofynnol hyn wedi cael eu harfer yn achos y cais diweddar gan Gylchffordd Cymru.

**3. Darparu rhagor o fanylion, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar gyllido prosiect Cylchffordd Cymru, yn ymwneud â'r broses ddiwydrwydd dyladwy a roddwyd ar waith.**

Mae manylion y broses diwydrwydd dyladwy a roddwyd ar waith wedi'u darparu yn yr ymateb i Gwestiwn 22 yn Atodiad 1.

**4. Cynnal ymchwiliad i ganfod pa unigolyn yn Llywodraeth Cymru a wnaeth y sylw mewn datganiad i'r wasg am 'grandstanding', a hysbysu'r Cadeirydd.**

Rwyf wedi darllen y datganiadau i'r wasg a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn ac ni welais sylw o'r fath yn un ohonyn nhw.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

**Cyfeirnod:** HVT/2747/caf

**Dyddiad Cyhoeddi:** 14 Medi 2017

Annwyl Nick

## Ariannu gwreiddiol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru

Rwyf wedi derbyn copi o ateb Llywodraeth Cymru, dyddiedig 11 Medi 2017, i'ch llythyr, dyddiedig 12 Gorffennaf, yn gofyn am dystiolaeth ysgrifenedig ganddynt, yn dilyn sesiwn tystiolaeth lafar y Pwyllgor gyda'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol ar 26 Mehefin.

Mae gennyf nifer o sylwadau ar gynnwys ateb Llywodraeth Cymru, yr hoffwn eu dwyn i'ch sylw er mwyn bod o gymorth i'r Pwyllgor wrth iddo ystyried a pharatoi ei adroddiad ei hun.

Lle mae fy sylwadau yn ymwneud yn bennaf â materion prosiect Cylchffordd Cymru, oedd yn destun yr adroddiad archwilio a gyhoeddwyd gennyf, mae'r rhain wedi eu hegluro yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Fodd bynnag, mae gennyf rai sylwadau penodol hefyd ar yr agweddau hynny ar ateb Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r ffordd y gwnaethant ymdrin â materion cyn ac ar ôl cyhoeddi fy adroddiad archwilio ar 27 Ebrill 2017, ac rwyf yn nodi'r rhain isod.

Yng **Nghwestiwn 25,** gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru a oedd swyddogion wedi hysbysu'r Gweinidog yn anffurfiol am ddyddiad cyhoeddi fy Adroddiad. Yn y ddogfen amgaeedig yn fy llythyr i Adam Price AC, dyddiedig 8 Mai 2017 (yr wyf wedi ei rhannu gyda'r Pwyllgor o'r blaen), rhoddais gronoleg o ddyddiadau allweddol yn arwain i fyny at gyhoeddi fy Adroddiad ar 27 Ebrill. Mae'n destun syndod mawr i mi na wnaeth y swyddogion:

- rybuddio'r Gweinidog ynghylch dyddiad cyhoeddi fy Adroddiad tan 24 Ebrill, er bod fy Nghyfarwyddwr Astudio wedi hysbysu'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol drwy lythyr ar 17 Mawrth am fy mwriad i gyhoeddi; ac
- na wnaethant gymryd camau digonol i sicrhau cywirdeb ffeithiol y Datganiad Ysgrifenedig a roddwyd gan y Gweinidog ar 27 Ebrill.

Roedd **Cwestiwn 27** yn gofyn i Lywodraeth Cymru am y gwersi a ddysgwyd a'r camau cywiro. Rwyf yn falch yn naturiol fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn llawn holl argymhellion fy Adroddiad a'i bod eisoes wedi dechrau gweithredu ar y rhain.

Gofynnai **Cwestiwn 26** yn benodol i Lywodraeth Cymru ymhelaethu ar ei honiad blaenorol ynghylch anghywirdebau ffeithiol yn fy Adroddiad. Rwyf yn rhannu pryderon y Pwyllgor yn y mater hwn ac rwyf yn bryderus yn neilltuol fod Llywodraeth Cymru yn ei hateb ysgrifenedig wedi dal i awgrymu bod diffygion o'r fath yn bodoli heb roi unrhyw enghreifftiau yn dystiolaeth, er gwaethaf cais uniongyrchol y Pwyllgor iddi wneud hynny.

Hoffwn felly sicrhau'r Pwyllgor:

- ac eithrio un gwall bychan (yr wyf wedi tynnu sylw'r Pwyllgor ato o'r blaen) mewn perthynas â'r prawf effeithlonrwydd economaidd, sef ei fod yn brawf y DU ac nid yn brawf Cymru'n benodol [gweler paragraff 2.8 yn yr Adroddiad], rwyf yn dal yn fodlon bod fy Adroddiad yn ffeithiol gywir; ac
- nad oes dim wedi ei gynnwys yn nhystiolaeth Llywodraeth Cymru, a roddwyd mewn ymateb i gwestiynau llafar ac ysgrifenedig y Pwyllgor, a fyddai'n achosi i mi addasu casgliadau fy Adroddiad.

Bydd y Pwyllgor yn gwybod fy mod ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o gefnogaeth Llywodraeth Cymru i fusnes o fewn fy rhaglen genedlaethol o astudiaethau gwerth am arian. Fel rhan o'r adolygiad hwnnw, mae'n fwriad gennyf archwilio sut mae Llywodraeth Cymru wedi gwella ei gweithdrefnau a'i harferion gwaith yng ngoleuni fy argymhellion blaenorol i ac eiddo'r Pwyllgor.

Gobeithiaf fod y sylwadau hyn o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

**Amgaeedig:**

Atodiad – Prosiect Cylchffordd Cymru: sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar dystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor

**Atodiad**

# Prosiect Cylchffordd Cymru: sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol ar dystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor

## Gwerth am arian yn gyffredinol

1. Mewn ymateb i **Gwestiwn 1**, mae'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol wedi ailddatgan ei fod yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau gwerth am arian o'r £9.3 miliwn o gefnogaeth wreiddiol a roddodd i Brosiect Cylchffordd Cymru (CoW), er gwaethaf ei phenderfyniad i wrthod rhagor o gefnogaeth allan o arian cyhoeddus. Fodd bynnag, mewn ymateb i **Gwestiwn 4**, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod nad oedd y swm o bron i £300,000 o arian cyhoeddus a roddwyd i Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (HoVDC) er mwyn caffael FTR Moto Limited [cwmni peirianyddol beiciau modur arbenigol seiliedig yn swydd Buckingham, sydd bellach yn nwylo'r gweinyddwyr] yn cynrychioli gwerth am arian.

2. Cwestiynodd y Pwyllgor i ba raddau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi craffu a herio'r taliadau a wnaed i gyflenwyr HoVDC ar sail taliadau cadw misol a'r dystiolaeth o werth am arian y gofynnwyd amdani (**Cwestiwn 2**). Mae ateb Llywodraeth Cymru yn datgan: *'All of the invoices stated the services supplied to HoVDC and the associated costs…'*. Fodd bynnag, nid yw'r datganiad hwn yn cael ei gefnogi gan archwiliad fy archwilwyr i o'r wybodaeth sy'n cael ei chadw yn ffeiliau Llywodraeth Cymru ei hun, sy'n cynnwys anfonebau am ffioedd misol heb unrhyw fanylion ynghylch y gwasanaethau a ddarparwyd mewn gwirionedd na'r costau yr aethpwyd iddynt [gweler hefyd baragraffau 3.22 – 3.25 yn fy Adroddiad].

3. Mae Llywodraeth Cymru'n mynd ymlaen i restru'r gwasanaethau y mae'n dweud i HoVDC ei hysbysu eu bod wedi eu cynnwys yn y taliadau cadw misol o £42,000, a dalwyd i Aventa [cwmni dan gontract i HoVDC i godi arian drwy fuddsoddiadau preifat ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru, sy'n eiddo'n gyfan gwbl i Michael Carrick, Prif Weithredwr HoVDC]. Nid yw'n dweud pryd y rhoddodd HoVDC y wybodaeth hon, nas rhoddwyd gan Lywodraeth Cymru i'm harchwilwyr i yn ystod eu hadolygiad. Fodd bynnag, fe roddodd Mr Carrick wybodaeth i'm harchwilwyr ynghylch ffioedd a gwasanaethau Aventa, er nad yw'r wybodaeth hon yn cyd-fynd â rhestr Llywodraeth Cymru.

4. Yn fy Adroddiad, deuthum i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru wedi caniatáu taliadau heb ddigon o dystiolaeth fod y gwasanaethau a ddarparwyd i brosiect Cylchffordd Cymru yn cynrychioli gwerth da am arian cyhoeddus [gweler paragraff 15]. Dywed Llywodraeth Cymru fod swyddogion yn credu *'that the value of the retainers was appropriate'*, ond nid yw wedi rhoi unrhyw dystiolaeth o'r cyfnod hwnnw i'r Pwyllgor ynglŷn â'r hyn yr oedd y gred hon yn seiliedig arno fyddai yn fy arwain i newid fy nghasgliad.

## Caffael FTR

5. Gofynnodd y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru am eglurder a thystiolaeth yn ymwneud â'r canlynol:
    - a oedd gwaith HoVDC yn caffael FTR Moto Limited yn cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus;
    - y rhesymeg y tu ôl i benderfyniad Llywodraeth Cymru i gymeradwyo rhoi arian grant ar gyfer y caffaeliad;
    - a oedd y caffaeliad yn cyd-fynd â dibenion cynllun y grant;
    - faint o graffu penodol a fu ar gynnwys y caffaeliad o fewn gwariant grant a gymeradwywyd;
    - a oedd swyddogion wedi tynnu sylw eu Gweinidog at eitem FTR; ac
    - ansawdd y cofnodion a gedwir gan Lywodraeth Cymru.

6. Rwyf yn cydnabod bod y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol wedi newid ei farn o'r hyn a fynegodd yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PCC) ym mis Mehefin; a'i fod yn derbyn bellach nad yw caffael FTR yn cynrychioli gwerth am arian cyhoeddus. Fodd bynnag, yn fy marn i, nid yw ateb Llywodraeth Cymru yn egluro'n ddigonol pam yr oedd yn angenrheidiol i HoVDC gaffael FTR ar gyfer cam 1 y Prosiect, nac yn darparu cyfiawnhad digonol pam y cymeradwyodd Llywodraeth Cymru arian Grant Datblygu Eiddo (PDG) ar ei gyfer. Yn ei hanfod, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru £300,000 o gyllid grant, a fwriadwyd ar gyfer datblygu eiddo yng Nghymru, fel y gallai HoVDC gaffael cwmni peirianyddol bychan yn swydd Buckingham.

7. Mae esboniad Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor pam y gwnaeth hyn yn troi o gwmpas cefnogi hyder buddsoddwyr ym mhrosiect cychwynnol adeiladu'r gylchffordd, drwy adleoli FTR i barc busnes technoleg ac felly ysgogi cwmnïau chwaraeon modur eraill i ymsefydlu yno. Yn fy Adroddiad, tynnais sylw at:
    - ddiffyg dogfennaeth Llywodraeth Cymru o'r cyfnod hwnnw i gefnogi'r rhesymeg hon (neu yn wir unrhyw resymeg) dros roi cyllid grant ar gyfer y caffaeliad [paragraff 4.5];
    - y ffaith nad oedd parc busnes yn ymwneud â chwaraeon modur yn ffurfio rhan o gam cyntaf prosiect Cylchffordd Cymru, gan gynnwys tywallt cyllid, caffael caniatâd cynllunio a chaffael safle, y rhoddwyd y grant ar ei gyfer, ac nad oedd yn rhan ychwaith o'r ail gam o adeiladu'r gylchffordd rasio a'r cyfleusterau cysylltiedig, yr edrychai HoVDC am fuddsoddwyr preifat ar ei gyfer [paragraffau 9, 1.7, 4.4; ac arddangosyn 2].

9. Gallai esboniad Llywodraeth Cymru felly gynnig rhyw fesur o gyfiawnhad dros gymorth adleoli i FTR ar ryw adeg yn y dyfodol, a chymryd yn ganiataol y byddai'r gylchffordd rasio wedi ei chwblhau ac yn gweithredu'n llwyddiannus ac y câi parc busnes ei ddatblygu wedi hynny, ond nid oedd hyn yn ffurfio unrhyw ran o gam 1 prosiect Cylchffordd Cymru.

10. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu i'r Pwyllgor y byddai oedi cyn caffael FTR wedi gwanhau'r achos busnes ar gyfer buddsoddiad preifat a bod ei gynnwys o fewn cam 1 yn dangos *'interest and a level of commitment'* i'r gylchffordd a'r parc technoleg. Fodd bynnag, nid oedd yr achos busnes a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru gan HoVDC yn cynnwys caffael FTR [gweler paragraff 4.1 yn yr Adroddiad] ac roedd y 'diddordeb' a'r 'ymrwymiad' yn dod o gwmni yr oedd HoVDC ei hun eisoes wedi ei gaffael cyn i Lywodraeth Cymru ddyfarnu'r grant [paragraff 4.2 yn yr Adroddiad].

11. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dweud bod y rhesymeg dros gaffael FTR wedi cael ei chwestiynu ar lafar gan swyddogion ac mae wedi derbyn y dylai cefnogaeth Grant Datblygu Eiddo ar gyfer y trafodiad fod wedi bod yn destun craffu manylach cyn rhoi cymeradwyaeth. Fodd bynnag, sylwaf ei bod wedi methu â darparu tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o unrhyw graffu a ddigwyddodd mewn gwirionedd na herio'r datganiadau a wnaed iddi gan HoVDC, na chraffu yn wir ar ei phenderfyniadau hi ei hun mewn perthynas â FTR.

12. Mae'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol wedi cydnabod yn ei ateb i **Gwestiwn 8** y dylai swyddogion fod wedi adolygu contract caffael FTR, ond hefyd nad yw'n gallu cadarnhau bod hyn wedi digwydd. Yn fy Adroddiad [paragraff 4.3], nodais nad oedd Llywodraeth Cymru wedi derbyn copi o'r contract.

13. Yn fy Adroddiad, nodais had oedd cyflwyniad Llywodraeth Cymru i'r Gweinidog yn sôn am FTR [paragraff 4.2]. Yn ei hateb i **Gwestiwn 9**, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan nad yw cyflwyniadau i weinidogion am gymeradwyaeth yn rhoi manylion yr holl wariant cymwys fel rheol. Mae'r ateb i **Gwestiwn 8** yn nodi y dylai gwelliannau i'w phrosesau craffu sicrhau y tynnir sylw at eitemau eithriadol yn awr o fewn cais am grant, ac y bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y rhoddid adroddiad am eitem megis FTR yn awr i'r gweinidog perthnasol. Credaf ei bod yn bwysig bod y swyddogion sy'n paratoi cyflwyniadau o'r fath yn cymryd y cyfrifoldeb am nodi unrhyw eitemau eithriadol ac nid yn dibynnu'n unig ar y broses graffu i dynnu sylw atynt.

14. Mae ateb Llywodraeth Cymru i **Gwestiwn 4** yn aneglur p'un ai cyn ynteu ar ôl penderfyniad y Gweinidog i ddyfarnu'r grant y gwnaeth swyddogion y penderfyniad i gymeradwyo grant datblygu eiddo ar gyfer caffael FTR. Mae'n dweud, *'The decision to provide funding was taken at an early stage,'* ond ddau baragraff yn ddiweddarach mae'n ymddangos fel pe bai'n croesddweud hyn gyda *'…officials agreed during the negotiation of the award letter, that the purchase was a key component…'*

15. Mae ateb Llywodraeth Cymru i **Gwestiwn 8** yn dangos bod swyddogion yn dal i fwynhau rhyddid sylweddol wrth baratoi llythyrau dyfarnu, yn dilyn penderfyniad y Gweinidog. Ymddengys fod yna berygl, wrth ymarfer y rhyddid hwn, y gallai swyddogion danseilio effeithiolrwydd y gwaith craffu cyn penderfyniad y gweinidog.

16. Roedd **Cwestiwn 10** yn canolbwyntio ar ddogfennaeth a chadw cofnodion, mater sydd wedi bod yn destun pryder i'r Pwyllgor ar nifer o achlysuron yn y gorffennol. Mae'n amlwg fod i ateb Llywodraeth Cymru, sef bod y swyddogion i bob pwrpas yn

rhy brysur i gadw cofnodion priodol, oblygiadau ehangach a mwy difrifol ar gyfer y modd y mae'r Adran yn cynnal busnes cyhoeddus.

## Cwestiynau pellach mewn ateb i'r dystiolaeth lafar

17. Yng **Nghwestiwn 11**, holodd y Pwyllgor ynghylch gwarantau benthyciadau a roddir gan Lywodraeth Cymru. Byddaf yn ystyried y graddau y gofynnir am warantau, y gwrthodir neu y darperir gwarantau, fel rhan o'm hadolygiad ehangach o gymorth cyllid busnes.

18. Gofynnai **Cwestiwn 12** am eglurder bod y trefniadau i sicrhau bod dyletswyddau yn cael eu gwahanu'n briodol yn gweithredu fel y bwriadwyd iddynt [gweler hefyd baragraffau 3.38 – 3.41 yn fy Adroddiad]. Nodaf fod y Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol, ar y sail fod yr e-bost gan swyddog, a ddyfynnwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei hateb, yn argymhelliad yn hytrach na chyfarwyddyd i wneud taliad, yn fodlon bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n briodol.

19. Roedd a wnelo **Cwestiwn 13** â p'un a oedd blaendal dychweladwy o £100,000, oedd yn cael ei ddal yn ôl, yn daladwy neu'n ad-daladwy yn dibynnu ar p'un a oedd trafodiad amodol gwerthu tir yn cael ei gwblhau. Er bod y swm yn sicr yn 'wariant cymwys' dan delerau'r grant, deuthum i'r casgliad [paragraffau 3.38 – 3.40 yn yr Adroddiad], er ei fod wedi ei dalu gan HoVDC i mewn i gyfrif escrow, na ddylai fod modd ei hawlio hyd nes yr oedd wedi ei dalu mewn gwirionedd i'r gwerthwr wrth gwblhau'r gwerthiant. Byddai hyn wedi osgoi'r sefyllfa lle mae hawliad am flaendal ad-daladwy yn cael ei dalu gan Lywodraeth Cymru ac wedyn y blaendal yn cael ei ddychwelyd, gyda'r canlyniad bod yr hawliwr ar ei ennill yn ariannol. Rwyf yn synnu bod Llywodraeth Cymru i bob ymddangosiad yn fodlon parhau i gymeradwyo talu hawliadau am flaendaliadau dychweladwy heb yn gyntaf sicrhau, os na fydd y trafodiad y mae'r blaendal yn gysylltiedig ag ef yn cael ei gwblhau, yna naill ai:
    - bod y blaendal yn cael ei ddychwelyd yn syth i Lywodraeth Cymru ac nid i'r hawliwr; neu
    - fod y swm a hawliwyd yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru gan yr hawliwr.

20. Gofynnai **Cwestiwn 19** pam yr oedd Llywodraeth Cymru wedi amau nifer y cwmnïau neu'r unigolion cysylltiedig, oedd wedi derbyn taliadau o dan drefniadau'r grant neu warant benthyciad, a nodwyd yn fy Adroddiad [paragraffau 3.22 – 3.25], er bod y ffeithiau wedi eu gwirio gan fy nhîm astudio gyda Michael Carrick ac nad oedd ef ei hun wedi herio'r wybodaeth.

21. Dywed ateb Llywodraeth Cymru *'We would not necessarily consider directors or shareholders of related companies as having the ability to influence the company being funded in the normal course of business and so would not look at them, focusing only on those individuals with direct means to influence.'* Mae hyn yn colli'r pwynt hanfodol a godwyd yn fy Adroddiad, sef nid bod y cwmnïau neu'r unigolion yn gallu o reidrwydd dylanwadu ar HoVDC yn gyffredinol ond yn hytrach eu bod yn

gyflenwyr i barti cysylltiedig ac y dylai Llywodraeth Cymru felly fod wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau gwerth am arian cyn cymeradwyo taliadau iddynt.

22. Dywed Llywodraeth Cymru, *'Any [related] companies used as suppliers must provide their services on an arms-length basis and be able to demonstrate value for money.'* Fodd bynnag, nodaf na wnaeth Llywodraeth Cymru sicrhau mai fel hyn yr oedd hi mewn perthynas â'i chefnogaeth ariannol hi i brosiect Cylchffordd Cymru. Ar ôl adolygu'r ateb ysgrifenedig yn ofalus, rwyf yn dal yn bryderus bod Llywodraeth Cymru:

    - yn cau allan i ddechrau ac wedyn yn ystyried yn ôl eithriad. Yr arfer da yw ystyried yn gyntaf a chau allan wedyn;
    - i'w gweld yn cau allan o'i hystyriaeth gwmnïau fel Kalergo Ltd, a dderbyniodd daliadau cadw misol dan drefniant gwarant benthyciad Llywodraeth Cymru oedd bron yn £97,000 i gyd, yn erbyn anfonebau nad oeddent yn rhoi manylion costau na gwasanaethau, ac unig swyddog a rhanddeiliad y cwmni yw Prif Swyddog Ariannol Aventa; ac
    - yn anymwybodol o lawer o'r perthnasau yr oeddwn i wedi eu darganfod yn ystod fy ngwaith maes archwilio nes i'm tîm astudio ei rybuddio yn eu cylch.

23. Roedd **Cwestiwn 20** yn ymwneud â'r swm fyddai mewn perygl pe na bai prosiect y gylchffordd yn mynd yn ei flaen. Mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, dyfynnodd y Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol ffigur o £55 miliwn mewn perygl, yn cynnwys amlygiad Llywodraeth Cymru o oddeutu £9.2 miliwn. Nodaf na wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal dilysiad manwl o'r ffigur, a roddwyd iddynt gan HoVDC, ond hefyd nad oedd sôn amdano i'w weld yn y cyflwyniad a roddwyd i'r Cabinet fel gwybodaeth ar gyfer ei benderfyniad ym mis Mehefin 2017 p'un ai rhoi mwy o gymorth i'r Prosiect ynteu peidio.

24. Holai **Cwestiwn23** ynghylch dosbarthiad cyfrifyddu Trysorlys Ei Mawrhydi o ddyled Cylchffordd Cymru pe bai'r Prosiect yn mynd yn ei flaen. Mae ateb Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar drafodaethau ynghylch risg ond nid yw'n mynd i'r afael yn uniongyrchol ag un elfen allweddol o gwestiwn y Pwyllgor, oedd yn gofyn pryd y canfuwyd yr union broblem gyfrifyddu am y tro cyntaf.

## Atebion i Gwestiynau a godwyd gan Glerc y Pwyllgor ym Mehefin 2017

25. Mewn ymateb i ail gwestiwn y Clerc, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan y byddai'r safonau gofynnol a ddatblygwyd gan Ganolfan Rhagoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru *'…have been utilised in respect of the **recent** application from the Circuit of Wales'*. Nodaf nad yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw sicrwydd i'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso'r safonau hyn mewn perthynas â'i hariannu **gwreiddiol** ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru, oedd yn destun fy Adroddiad.

# Eitem 3

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Tachwedd 2017

Amser: 14.01 - 16.44

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4355

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Adam Price AC |
| Tystion: | Naomi Alleyne, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Angela Lee, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent<br>Sam Lewis, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent<br>Nigel Stannard, Cyngor Dinas Casnewydd<br>Elke Winton, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru National Assembly for Wales

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lee Waters AC. Nid oedd neb yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Nodwyd y papurau.

2.2 O ran heriau digidoleiddio, roedd yr Aelodau'n cytuno y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau gan amgáu copi o lythyr yr Ysgrifennydd Parhaol gan argymell bod y Pwyllgor yn holi'r Gweinidog ymhellach ynglŷn â'r mater. Cytunodd yr Aelodau hefyd i gynnal sesiwn ragarweiniol yn y flwyddyn newydd gyda Chyfarwyddwr Cyffredinol newydd Llywodraeth Cymru.

### 2.1 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Gwybodaeth ychwanegol gan Chwaraeon Cymru (14 Tachwedd 2017)

### 2.2 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Gwybodaeth ychwanegol gan Gyngor Celfyddydau Cymru (17 Tachwedd 2017)

### 2.3 Craffu ar Gyfrifon 2016-17: Gwybodaeth ychwanegol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru (20 Tachwedd 2017)

### 2.4 Heriau digidoleiddio: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Gymru (17 Tachwedd 2017)

### 2.5 Penodi Cyfarwyddwyr Cyffredinol Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru (21 Tachwedd 2017)

## 3 Maes Awyr Caerdydd: y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

3.1 Nododd yr Aelodau y wybodaeth a chytunwyd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn amlygu pryderon ynghylch yr amser a gymerwyd i benodi aelod allanol i fwrdd Holdco gan ofyn am esboniad am yr oedi.

## 4 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 2

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Naomi Alleyne, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Elke Winton, Rheolwr Grŵp Tai, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen; a Nigel Stannard, Rheolwr Rhaglen Cefnogi Pobl, Cyngor Dinas Casnewydd (a Chadeirydd y Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl) fel rhan o'i ymchwiliad i Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.

## 5 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Sesiwn dystiolaeth 3

5.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Sam Lewis, Is-gadeirydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent ac Angela Lee, Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol, Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent fel rhan o'i ymchwiliad i Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.

5.2 Cytunodd y Pwyllgor i ofyn am ddadansoddiad o'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â’r Rhaglen Cefnogi Pobl a'r grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru sy'n cael eu hystyried ar gyfer y prosiect cyllido hyblyg.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Rhaglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Trafododd yr Aelodau’r dystiolaeth a ddaeth i law.

## 8 Blaenraglen waith – Gwanwyn 2018

8.1 Nododd y Pwyllgor ei flaenraglen waith ar gyfer tymor y gwanwyn.

# Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/
Prif Weithredwr GIG Cymru
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Director General Health and Social Services/
NHS Wales Chief Executive
Health and Social Services Group**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ein Cyf: AG/MS/JW/JM

21 Tachwedd 2017

Annwyl Mr Ramsay

**Arlwyo a Maeth Cleifion mewn Ysbytai**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 16 Hydref 2017 a'ch gwahoddiad i ddod i gyfarfod â'r Pwyllgor ar 4 Rhagfyr 2017, hoffwn gynnig ymateb i'r Pwyllgor yn ymdrin â'r materion a godwyd, gan obeithio y bydd yn ddefnyddiol cyn y cyfarfod.

Yn gyntaf, hoffwn sicrhau aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bod yr holl faterion a'r argymhellion a godwyd yn cael eu hystyried o ddifrif, a'u bod yn gyfle i wella pob rhan o'n system. Wrth gwrs, rhaid pwyso a mesur unrhyw weithgarwch a argymhellir yn erbyn yr ystod o gyfrifoldebau a ddarperir gan y GIG a'r adnoddau sydd ar gael i'w gweithredu. Er enghraifft, bydd llawer o'r systemau TGCh sydd ar waith yng Nghymru gyda'r rhaglenni newid mwyaf sylweddol i unrhyw sefydliad yn lleol – a hyd yn oed yn fwy cymhleth ei weithredu'n gyson ar draws Cymru. Yn anochel, byddwn bob amser yn pwysleisio ac yn blaenoriaethu'r systemau clinigol cenedlaethol, sy'n cefnogi staff a chleifion, er mwyn darparu triniaethau a gofal clinigol. Dyma enghreifftiau o'r systemau hyn: rhoi ar waith System Rheoli Cleifion (Myrddin) ledled Cymru, y porth clinigol cenedlaethol, systemau meddygon teulu, WCCIS (fel system gofal cymdeithasol a chymunedol cenedlaethol), RADIS (system radioleg genedlaethol) systemau Adrannau Argyfwng a LIMS (system labordai cenedlaethol). Byddwn yn parchu unrhyw argymhellion, ond bydd hefyd angen cysoni a dewis blaenoriaethau gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael.

Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Hydref 2016, mae dau argymhelliad wedi'u cyflawni:

- Mewn perthynas ag argymhelliad 8, cyhoeddwyd cyfarwyddeb a gallaf gadarnhau bod pob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd wedi pennu cyfarwyddwr anweithredol i arwain sydd â chyswllt â swyddog gweithredol.

- Mewn perthynas ag argymhelliad 10, gallaf hefyd gadarnhau y dosbarthwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru i fyrddau iechyd ac i Ymddiriedolaeth GIG Felindre ym mis

Ffôn • Tel 02920 801182/1144
Andrew.Goodall@llyw.cymru
Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ
Gwefan • website: www.llyw.cymru

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Mai 2017 yn adolygu’r targed ar gyfer gwastraff bwyd o 10% i 5%. Mae hyn yn cydnabod y cynnydd da a wnaed ar wastraff, fel y gwelir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, ond mae hefyd yn adlewyrchu pa mor bwysig ydyw i osod ac adolygu targedau ar gyfer gwella.

Safoni dogfennaeth Nyrsio

Rwy'n bryderus bod y gwaith o ddatblygu systemau electronig i gefnogi nyrsys, drwy ein tystiolaeth a'n hymatebion blaenorol, o bosibl wedi canolbwyntio'n ormodol ar rôl unigolyn sy'n gweithio i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae llawer o'r systemau clinigol cenedlaethol y cyfeiriais atynt uchod yn darparu cymorth i'r holl dimau clinigol, gan gynnwys timau nyrsio, i weithredu'n glinigol ac i gael mynediad at gofnodion clinigol electronig. Wrth i'r gwaith barhau i ddatblygu un cofnod nyrsio electronig a fydd yn cynnwys yr holl ystod o ddogfennau nyrsio sy'n cael eu defnyddio, gall nyrsys a staff eraill ddefnyddio systemau electronig mewn amrywiaeth o ffyrdd wrth eu gwaith o ddydd i ddydd.

Dyma enghreifftiau o hyn:

- Bellach, mae holl ganlyniadau patholeg a phelydr-X cleifion ar gael i'w gweld yn electronig ac felly mae modd trosglwyddo'r canlyniadau’n gyflymach i staff clinigol sy'n gofalu am y cleifion ac yn eu trin.
- Mae cleifion sydd angen monitro glwcos yn y gwaed yn gallu gwneud hynny drwy ddefnyddio system electronig lle mae modd gweld y canlyniadau'n gyflym.
- Mae ysbytai yn anfon llythyr electronig at feddygon teulu pan fydd cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty i gael gofal yn y gymuned.
- Mae'r System Fonitro Safonau Iechyd a Gofal yn electronig ac mae'n cynnwys canlyniadau archwiliadau hanfodion gofal gan y timau nyrsio.
- Mae'r cofnodion llif cleifion yn electronig ac yn cynnwys gwybodaeth am nifer y cleifion sydd mewn amgylchedd clinigol penodol (ee yr adran damweiniau ac achosion brys) ac am ba mor hir mae unigolion yn aros mewn mannau penodol.
- Mae'n llawer haws i gleifion roi adborth drwy ddefnyddio technoleg fel iPads mewn mannau clinigol a thrwy arolygon ar y wardiau neu ar y we.
- Defnyddir offeryn electronig i asesu nifer y nyrsys sydd eu hangen i ofalu am gleifion yn unol â'r Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio.
- Mae meddygon teulu yn defnyddio cofnodion cleifion electronig i gofnodi'r gofal a'r triniaethau a roddir i gleifion, ac mae'r holl staff clinigol yn defnyddio systemau gofal sylfaenol.
- Mae rhai nyrsys ardal yn defnyddio iPads i gofnodi'r gofal a roddir i gleifion yn eu cartrefi. Bydd defnyddio'r system WCCIS fel y system genedlaethol ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn gosod templed cenedlaethol cymeradwy sy'n cefnogi gwaith Ymwelwyr Iechyd a Nyrsys Ardal.
- Mae datblygiadau eraill yn canolbwyntio ar gofnodion nyrsio: mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn treialu cofnod nyrsio electronig ar ward llawfeddygaeth ddewisol i oedolion. Cafodd y system hon ei datblygu'n fewnol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi caffael system cofnodion nyrsio electronig ac yn ei defnyddio ar ward plant. Ar lefel leol, mae'r ddwy system yn gweithredu'n ehangach.

Mewn perthynas ag argymhelliad 4, mae’r gwybodegydd nyrsio yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi cwblhau gwaith ymgysylltu helaeth dros y 12 mis diwethaf gyda

staff o fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd ar draws Cymru a chyda grwpiau penodol i nodi’r mathau o ddogfennau nyrsio sy’n cael eu defnyddio ar hyn o bryd, ac i gasglu’r gofynion lefel uchel ar gyfer system ddigidol. Cyfrannodd yr adborth o’r uchod at y gwaith o ddatblygu manyleb ar gyfer y ddogfen electronig i Gymru gyfan sy’n nodi 29 o ofynion.

Er gwaethaf defnydd ehangach y systemau a amlinellir uchod, canfuwyd bod yr holl Fyrddau Iechyd yn defnyddio dogfennau papur gydag amrywiadau penodedig o’r set ddata nyrsio genedlaethol a’r set ddata graidd. Yn dilyn ymweliadau, nodwyd bod dwy system ar gyfer dogfennau digidol yn cael eu treialu ar hyn o bryd, y naill ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a’r llall ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y gwaith mapio’n cynnwys adborth gan staff yn y byrddau iechyd sy’n defnyddio dogfennau digidol.

Darparodd Cronfa Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer datblygu e-ffurflenni, gan roi blaenoriaeth i ddogfennau nyrsio gan gynnwys deall yr effaith ar arferion proffesiynol. Byddai trosi'r holl ddogfennau nyrsio yn rhai electronig yn broses sylweddol i unrhyw system, yn gofyn am gydbwysedd rhwng systemau technegol ac asesiadau proffesiynol, ac mae gwaith ar hyn yn parhau ledled y DU.

Cadarnhaodd Cyfarwyddwyr Nyrsio y fanyleb ar gyfer y ddogfen electronig i Gymru gyfan â 29 o ofynion ar 22 Medi 2017. Gan fod y gofynion bellach wedi’u cytuno, mae Bwrdd Prosiect a grŵp Gweithredol wedi'u sefydlu. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ar y Bwrdd Prosiect a bydd swyddogion yn monitro cynnydd.

Fel ymateb penodol i argymhelliad 3, gallaf gadarnhau bod materion ynghylch anghenion diwylliannol, crefyddol a dietegol yn cael eu cynnwys fel rhan o’r gwaith  e-ddogfennau nyrsio.

Materion yn ymwneud â chynllunio’r gweithlu

Mewn perthynas ag argymhelliad 5, mae’r Gwasanaeth Gwybodeg wedi bod yn mynd i’r afael â’r materion sy’n ymwneud â chynllunio’r gweithlu a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae cynllun gweithlu wedi’i ddatblygu, sydd wedi'i amlinellu yng nghynllun 3 blynedd y Gwasanaeth Gwybodeg, gyda’r nod o fynd i’r afael â’r trafferthion recriwtio i rolau technegol arbenigol mewn maes cystadleuol. Felly, mae cadw gwybodaeth ac arbenigedd y staff presennol wedi dod yn ffactor pwysig yn GIG Cymru; yn arbennig yn y Gwasanaeth Gwybodeg am fod gan staff gwybodeg iechyd sgiliau technegol arbenigol sy’n atyniadol i sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a’r sector preifat. Mae nifer o strategaethau’r gweithlu yn yr arfaeth, gan gynnwys datblygu pecyn cymorth ar gyfer gweithio hyblyg, gweithdai i staff ac adolygiadau parhaus o’r arferion gweithio hyblyg presennol a rhoi cyngor i reolwyr am opsiynau hyblyg, datblygu strategaeth recriwtio a chynyddu prentisiaethau ac interniaethau i raddedigion. Mae Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd yng Nghymru hefyd yn cyflogi nifer sylweddol o staff arbenigol ym maes TGCh sy'n cefnogi seilwaith a datblygiadau lleol a'r gwaith o gyflwyno rhaglenni cenedlaethol.

System TG arlwyo

Er y gallai cyflwyno system TG arlwyo ar draws GIG Cymru arwain at rai manteision, rhaid ystyried y penderfyniad i ddyrannu cyllid ac adnoddau i’r rhaglen hon o fewn cyd-destun ehangach digideiddio ar draws yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn

yn cynnwys datblygu a chyflwyno systemau clinigol allweddol, a’r pwysau i sicrhau bod y meysydd ymrwymedig hynny yn gwella. Mae llawer o alw ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf cyfyngedig sydd ar gael sy'n canolbwyntio ar ddarparu systemau clinigol cenedlaethol. Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn sicrhau gwerth am arian system o’r fath, yn arbennig o ystyried y gwnaed cynnydd sylweddol eisoes yn erbyn argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru, er enghraifft mewn perthynas â lleihau gwastraff bwyd. Pan gafwyd yr argymhellion gwreiddiol, ystyriwyd y byddai system yn ffordd o gefnogi'r canlyniad hwn, ond mae cynnydd wedi'i wneud heb yr angen i roi system genedlaethol ar waith.

Ystyriwyd ac adolygwyd yr achos busnes gan y Gwasanaeth Gwybodeg ym mis Ionawr a mis Mawrth eleni, ac wedi hynny rhoddwyd y dasg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan arwain ar broses i adolygu’r achos busnes mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Cyfarwyddwyr Ystadau a Chyfleusterau Cymru Gyfan, Grŵp Cynghori ar Nwyddau Cymru Gyfan, Grŵp Arlwyo Cymru Gyfan yn ogystal â Dietegwyr, a gweithwyr proffesiynol ym meysydd Caffael, Cyllid a TG. Nid oeddwn o'r farn bod yr achos ddigon da i gystadlu â'r systemau clinigol cenedlaethol eraill oedd yn cael eu hystyried o fewn y cyllid cyfyngedig a ddyrannwyd i'r Gwasanaeth Gwybodeg ac felly roedd angen i'w fuddion ehangach a'r potensial i fod yn hunan gyllidol fod yn glir. O ganlyniad, bydd angen i unrhyw broses sicrhau bod y buddion ariannol yn cael eu cyflawni'n briodol gan mai dyma fydd ffynhonnell cyllid y system yn y dyfodol.

O ganlyniad i’r gwaith angenrheidiol hwn, gallaf gadarnhau, fel yr amlinellir yn y diweddariad a roddwyd i’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ym mis Medi, bod Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau iechyd i gyflwyno system TG newydd ar gyfer arlwyo ledled Cymru. Mae'r system hon yn cael ei datblygu'r flwyddyn nesaf er mwyn caniatáu i bob bwrdd ac ymddiriedolaeth iechyd sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad mewn system TG gwell yn cyd-fynd â’u cynlluniau ehangach i wella gwasanaethau arlwyo.

Yr hyn oedd orau gen i, wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r meini prawf caffael, oedd gweld a fyddai opsiwn i ymestyn system bresennol i fyrddau iechyd eraill. Yn anffodus, mae'r cyngor a roddwyd inni yn nodi'n glir bod angen cynnal proses gaffael newydd. Felly, bydd y cydwasanaethau'n parhau â'r broses gaffael a'r fanyleb yn genedlaethol er mwyn i fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd fanteisio ar y system newydd.

<u>Diweddariadau Ychwanegol</u>

Mewn ymateb i argymhellion 1 a 2, gallaf gadarnhau y gwnaeth fforwm maeth ac arlwyo Cymru gyfan a grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan drafod adborth gan gleifion. Caiff adborth eisoes ei ddefnyddio'n lleol o fewn byrddau iechyd er mwyn gwella. O ganlyniad, maent yn gweithio gyda grŵp fframwaith bwydlenni Cymru gyfan i amlinellu a rhannu themâu cyffredin ledled Cymru.

Mewn perthynas ag argymhelliad 7 sy’n ymwneud â chyfuno e-ddysgu a dysgu wyneb yn wyneb, roedd hyn yn destun trafodaeth yng Nghynhadledd Dysgu Digidol GIG Cymru ym mis Medi 2017. Yn sgil hyn, mae sefydliadau iechyd wedi bod yn archwilio sut y mae gwybodaeth am faeth yn cael ei chyfleu a nodi'r cydrannau e-ddysgu a dysgu wyneb yn wyneb. Y farn yw y dylid darparu gwybodaeth am faeth yn electronig ac wyneb yn wyneb er mwyn diwallu arddulliau dysgu unigol a dewisiadau o ran dulliau dysgu.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd 2017 o fforwm maeth ac arlwyo Cymru gyfan, bu'r aelodau’n trafod nodi meysydd dysgu gorfodol fel y cyfeirir ato yn argymhelliad 6. Mae pob sefydliad iechyd ar hyn o bryd wrthi'n ymchwilio i'w ofynion ar gyfer dysgu gorfodol mewn perthynas â maeth a bydd y camau nesaf yn cael eu cytuno arnynt yng nghyfarfod mis Ionawr 2018 o fforwm maeth ac arlwyo Cymru gyfan.

Cyfeiriodd eich llythyr hefyd at yr amserlen ar gyfer gweithredu’r system presgripsiynu electronig. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cael Achos Busnes Amlinellol ar gyfer system presgripsiynu, fferylliaeth a rhoi meddyginiaethau yn electronig yn Ysbytai Cymru. Byddai angen lefel sylweddol o gyllid cenedlaethol ar hyn i ddarparu system gyson ledled Cymru, ac nid yw'r cyllid hwn ar gael nac wedi'i ddyrannu hyd yn hyn. Mae’r achos cychwynnol hwn yn amcangyfrif cost o £36.5 miliwn o ran yr opsiwn a ffefrir dros saith mlynedd y contract. Mae uwch swyddogion ac arbenigwyr eraill yn y GIG ar hyn o bryd yn adolygu'r achos busnes amlinellol hwn. Bydd canlyniad yr adolygiad hwn yn pennu'r camau nesaf ynghyd â'r amserlen, ond os cytunir arno, byddai'n rhaglen TGCh sylweddol a byddai angen dyrannu swm clir o arian ar ei chyfer. Er mwyn cefnogi'r achos cenedlaethol, mae penderfyniad eisoes wedi'i wneud i sefydlu prosiect braenaru system presgripsiynau a gweinyddu meddyginiaethau’n electronig mewn ysbytai ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, dan nawdd cyfalaf i Gymru gyfan. Bydd y prosiect braenaru yn cyfrannu'n fawr at y system presgripsiynu a rhoi meddyginiaethau’n electronig genedlaethol, gan sicrhau bod y fanyleb ar gyfer y system genedlaethol yn bodloni gofynion y gwasanaeth ac yn gam cychwynnol cymeradwy ar gyfer gweithredu'r system hon. Caiff y system bellach ei chefnogi gan drefniadau prosiect cenedlaethol.

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn o gymorth i'ch trafodaethau cyn y cyfarfod. Edrychaf ymlaen at drafod ymhellach â’r Pwyllgor ar 4 Rhagfyr.

Yn gywir

**Dr Andrew Goodall**